

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Ionawr 2016

Rhifyn 462

50c

Ffyrnigrwydd Frank!

Na, doedd dim “stelcian ennyd wrth Bont y Tŵr” i drigolion y Dyffryn yn ddiweddar. A doedd na ddim “llyn bach llonydd” yno ychwaith. Na, trawsffurfiwyd y Dyffryn yn amrywiaeth o lynnoedd, pyllau, ceunentydd ac afonydd newydd sbon yn sgîl storm Frank a laniodd ar stepen ein drysau’n llythrennol dros y Nadolig. Daeth Frank yn ddi-wahoddiad i darfu ar dymor y dathlu. Methodd rhai â theithio dros yr ŵyl, boed yn ôl adref, neu i ymweld â ffrindiau a pherthnasau. Difethwyd cartrefi, a gwelodd pentrefwyr Talybont lifogydd nas gwelwyd eu tebyg o’r blaen. Ond yng nghanol y gwynt a’r glaw, roedd llygedyn o heulwen. Yng nghanol y pryder a’r gofid, daeth cymdogion at ei gilydd, i helpu ei gilydd, i gasglu’r hyn oedd yn bosib iddynt ei arbed. Ffurfiwyd timau oedd yn adeiladu amddiffynfeydd rhag mwy o ddifrod, gan ddefnyddio unrhyw arf posibl, yn bren, yn sachau tywod, yn arwyddion plastig, a hyn oll er mwyn helpu ei gilydd. Felly gyda Frank bellach ar drai, er gwaethaf hagrwch ei olion, fe lwyddodd i greu ynom fel trigolion yr awydd a’r ewyllys i helpu ein gilydd. Boed i hynny barhau yn 2016 – blwyddyn newydd dda!

PWYSIG

Oherwydd newidiadau anorod i amserlen cysodi’r Llais, a wnewch chwi, ohebwy’r Llais, dalu sylw manwl i’r dyddiad y mae angen i bob deunydd fod yn llaw’r golygyddion, os gwelwch yn dda? Fe sylwch bod amryw o eitemau arferol ar goll y mis hwn, gan nad oeddynt wedi cyrraedd y golygyddion mewn pryd i’w hanfon i’w cysodi. Byddant yn ymddangos yn rhifyn mis Chwefror. Diolch am eich cydweithrediad.



Lluniau: Heulwen Roberts

Dilynwch ni ar Trydar: @Llais_Ogwan

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts
☎ 600965
✉ hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
✉ cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts
☎ 600490
✉ l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn
☎ 07940 905181
✉ dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
✉ Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees
☎ 600427
✉ sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes
☎ 600853
✉ nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
✉ dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
✉ trystanrp1@gmail.com

Walter W Williams
☎ 601167
✉ waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION


Cadeirydd
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd LL57 3DT
☎ 602440
✉ dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
✉ nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
✉ garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ
☎ 600872
✉ godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN
☎ 600184
✉ post@llaisogwan.com



DYDDIADUR Y DYFFRYN

IONAWR 2016

16 Bore Coffi gan Gapel
Jerusalem. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.

26 Cangen Plaid Cymru
Dyffryn Ogwen. Cefnfaes
am 7.00.

28 Merched y Wawr Bethesda.
Taith i'r India gyda Marian
Hughes. Cefnfaes am 7.

CHWEFROR 2016

01 Theatr Bara Caws yn
cyflwyno "DRWG". Neuadd
Ogwen am 13.00.

01 Merched y Wawr Tregarth.
Festri Shiloh am 7.00

02 Theatr Bara Caws y
cyflwyno "DRWG". Neuadd
Ogwen am 10.00 a 13.00.

0 Sefydliad y Merched
Carneddi. Cefnfaes am
7.00.

08 Cymd. Hanes Dyffryn
Ogwen. Festri Jerusalem
am 7.00.

11 Cymdeithas Jerusalem.
Sgwrs gan Andre Lomozik.
Festri Jerusalem am 7.00.

13 Marchnad Ogwen. Neuadd
Ogwen. 9.30 – 1.30.

18 Plygu Llais Ogwan.
Cefnfaes am 6.45.

19 Cyfarfod Blynnyddol Cangen
Dyffryn Ogwen Plaid
Cymru. Cefnfaes am 7.00.

Rhoddion i'r Llais

£10.00 Er cof annwyl am
Raymond Williams, 3 Rhes
Douglas, Bethesda, a fu farw
24 Rhagfyr 2011. Oddi wrth
Barbara. "Yn gweld dy golli".

£10.50 Mrs. Eurwen
Griffiths, Rhes Mostyn,
Bethesda.

£20.00 Er cof am Brinley a
Marian Jones, Rhes Coetmor,
Bethesda, gan y plant.

£10.00 Mrs Nia Phillips,
Southport - er cof am Mr a
Mrs J G Hughes

£10.00 Mr D W Thomas,
Barrow in Furness

£50.00 Mr Bryn Roberts,
Caerdydd – er cof am Caeron
a Nancy Roberts, Erw Faen,
Tregarth

£10.00 Mrs E V Amos,
Glanogwen, Bethesda

Diolch yn fawr.

GOLYGYDD Y MIS

Golygwyd y mis hwn gan

**Lowri Roberts a
Walter Williams**

Golygyddion mis Chwefror
fydd

Lowri Roberts,
8 Pen y Ffriddoedd,
Tregarth,
LL57 4NY (01248 600490)
l.roberts11@btinternet.com
a **Walter W. Williams,**
14 Erw Las,
Bethesda, LL57 3NN
(01248 601167)
waltermenai@yahoo.co.ukm

Pob deunydd i law erbyn
Dydd Mercher, 3 Chwefror
os gwelwch yn dda.
Plygu
nos Iau, 18 Chwefror,
yng Nghanolfan Cefnfaes
am 6.45.

COFIWCH GEFNOGI
EIN HYSBYSEBWYR.

ARCHEBU LLAIS OGWAN DRWY'R POST



Gwledydd Prydain	£20
Ewrop	£30
Gweddill y Byd	£40

Owen G. Jones,
1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN

☎ post@llaisogwan.com
✉ 01248 600184

Nid yw pwyllgor
Llais Ogwan
na'r panel golygyddol o
angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan
ein cyfranwyr.

LLAIS OGWAN AR CD

Gellir cael copi trwy gysylltu
â Bryn yn swyddfa'r deillion,
Bangor:

☎ 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n
cael trafferth â'i olwg, ac a
hoffai dderbyn copi o'r Llais
ar CD bob mis, cysylltwch ag
un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

LLAIS OGWAN

**Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan**
@Llais_Ogwan

Cysodwyd gan
Smala, Clynnogfawr
www.smala.net
☎ 01286 660017
www.smala.net
post@smala.net

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor, Penygroes,
Gwynedd LL54 6DB
☎ 01286 881911

CLWB CYFEILLION LLAIS OGWAN

GWOBRAU IONAWR

£30.00 (31) Alwenna Puw,
Cefn y Bryn,
Bethesda.

£20.00 (61) Blodeuwedd
Wyn, Ffordd
Carneddi.

£10.00 (173) Helen
Williams, Penrhiw,
Mynydd Llandygai.

£5.00 (44) Donna Hughes,
Bro Rhiwen,
Rhiwlas.

Mae
Llais Ogwan
ar werth
yn y siopau isod yn
Nyffryn Ogwen:

Spar, Bethesda,
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Siop y Post, Rachub

GAIR NEU DDAU

TORRI'R GOEDEN

Roedd y gwyntoedd yn ddigon i godi braw ar unrhyw un dros y Nadolig. Yr un oedd y stori ddwy flynedd yn ôl. Caf f'atgoffa o'r gwyntoedd hynny bob tro yr edrychaf trwy ffenest y parlwr a gweld bonyn y goeden wrth giât y Tŷ.

Rwy'n cofio i mi sgwennu pwt o erthygl am y goeden rai blynyddoedd cyn hynny. Roedd y goeden honno wedi tyfu'n goeden fawr heb i mi sylwi arni. Rwy'n dyfalu ei bod o leiaf drigain troedfedd o uchder. Ond ddeuddydd wedi'r Nadolig ddwy flynedd yn ôl gwelwyd ei bod yn beryglus o simsan. Roedd nerth y gwynt yn bygwth ei chodi o'i gwraidd. Roedd hi'n llythrennol yn codi'r ddaear dan ei thraed wrth iddi siglo ar ei sodlau ... i gyfeiriad ein tŷ ni. Ond diolch byth, fe lwyddwyd, er gwaetha'r tywydd garw, i dorri'r rhan helaethaf o'i changhennau a'i diogelu cyn iddi gwympo a gwneud unrhyw ddifrod. Rwy'n ddiolchgar i berchennog y lôn a'i deulu am hynny. F'unig gyfraniad i at y gwaith oedd dal yr ysgol a chlirio tipyn o'r llanast! Ac o fewn ychydig ddyddiau, wedi i'r storm dawelu, torrwyd gweddill y goeden.

Cryfder y gwynt oedd y peth dychrynlyd y prynhawn hwnnw, a ninnau'n ofni y chwythid y goeden drosodd. Roedd yn sicr yn gwneud i mi feddwl am y bobl a ddioddefodd yng nghanol stormydd mawr o amgylch y byd yn ddiweddar. Wrth ffarwelio â'r hen flwyddyn daliwn i gofio ym mhob ffordd bosibl am y bobl a ddioddefodd yma yng Nghymru – yn ein hardal ni ein hunain hyd yn oed – ac mewn gwledydd eraill.

Roedd cryfder y gwynt yn f'atgoffa hefyd am awdurdod a gallu'r Arglwydd Iesu a orchmynnodd i'r gwynt dawelu un diwrnod yng nghanol y storm ar Fôr Galilea. Pa ryfedd bod y disgyblion wedi synnu'n fawr o'i weld yn gwneud hynny ac wedi dechrau holi, 'Pa fath ddyn yw hwn? Y mae hyd yn oed y gwyntoedd a'r môr yn ufuddhau iddo' (Mathew 8:27).

Trwy dystiolaeth y Testament Newydd fe wyddom ni, wrth gwrs, yr ateb i'r cwestiwn hwnnw. Pa fath ddyn? Mae'r hanesion a gofnodwyd am ei wyrthiau yn dangos yn glir mai Mab Duw ei hun yw'r Iesu hwn. Gallu Duw, nerth Duw sydd ar waith drwyddo, ac fe'i gwelir yn troi'r dŵr yn win, yn tawelu'r storm, yn iachau'r cleifion, yn porthi'r miloedd ac yn atgyfodi'r meirw. Ac felly, awn ato'n hyderus mewn hindda neu storm trwy fisoedd y flwyddyn newydd gan wybod ei fod yn alluog i'n cynnal trwy'r cyfan a ddaw. Mae gyda ni yng nghanol pob storm, a gall hyd yn oed dawelu llawer o'r stormydd sy'n peri pob math o ofn a dychryn i ni.

JOHN PRITCHARD

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?



Dyddiadur Digwyddiadau 1951-1955

1951

09/1951: Mr Ronald Pardoe yn dechrau yn ei swydd yn brifathro Ysgol Dyffryn Ogwen. Brodor o Gwm-bach, ger Aberdâr, oedd Ronald Pardoe a derbyniodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Aberdâr a Choleg y Brifysgol, Caerdydd. Lladdwyd ei fab, Eryl, a oedd o fewn ychydig ddyddiau iddo fod yn 23 oed, mewn damwain wrth iddo ddringo yng Nghanada. Ymddeolodd Mr Pardoe yn 1971. Ymfudodd i Ganada tua 1974 ac yn fuan wedi cyrraedd yno priododd â Nancy, hen ffrind iddo ef a'r teulu a'r wraig y bu Eryl yn lletya gyda hi. Bu farw ddydd Gwener, Rhagfyr 2, 1988, yn 78 oed ac amlosgwyd ei weddillion yn Langley, Canada.

Fel yr oedd ac fel y newidiwyd pethau yn ôl Ronald Pardoe: 'Y tu ôl i'r ysgol, gwelwyd cantîn, coed, cae pêl-droed creigiog ac, ar yr ochr dde, twmpath a phant. Yma chwaraewyd cowbois ac indians a chasglwyd llyffantod – y jyngl. Nid oedd modd derbyn ysgol arall yma i gael gêm, 'roedd y cae yn beryglus oherwydd y llechi a'r cerrig ac yn dorcalonnus i ddillad y plant ... Ond, o'r diwedd, daeth y freuddwyd yn wir a gwelwyd teirw dur yma ... yn diddymu'r hen jyngl (bûm yn amhoblogaidd iawn am hyn) ac yn gwneud cae chwarae pêl-droed yn uchaf a chae hoci yn is i lawr.'

17/09/1951 (Llun): Wythnos Gymreig ym Methesda gyda Gŵyl Prydain.

18/09/1951 (Mawrth): Gwledd Gŵyl y Pensiynwyr ym Methesda.

01/12/1951: Nos Sadwrn am 6 o'r gloch, y trên-cario-pobl olaf yn gadael Bethesda. 14 munud 47 eiliad a gymerodd i gyrraedd Bangor. Gwyn Parry, mab Stanley Parry, Cadeirydd y Cyngor Dinesig, a dynnodd lifar y chwiban i'w chychwyn. Y gwasanaeth cario nwyddau'n parhau tan 07/10/1963 pan gaewyd y rheilffordd a'r orsaf yn gyfan gwbl. Codwyd y cledrau i gyd erbyn 06/1964. Agorwyd yr orsaf yng Ngorffennaf 1884.

1952

28/06/1952 (Llun): Cyfarfod o Swyddogion Eglwysi Annibynwyr ym Methesda er ceisio uno Eglwysi gyda'i gilydd.

31/08/1952 (Sul): Siop Mrs Foster, Carneddi, yn mynd ar dân.

16/10/1952 (Iau): Tân mawr yn siediau'r Felin Fawr. Colled o filoedd o bunnau ac ni ŵyr neb sut na phryd y dechreuodd.

08/11/1952 (Sadwrn): Agor yr Ogwen Cinema yn yr Hen Farchnad.

1952 (tua)

Ysgol Tyn-tŵr yn cael ei defnyddio bob dydd Llun i hyfforddi oddeutu 30 o brentisiaid y chwarel.

Cyhoeddi *The Heart of Snowdonia National Park: Bethesda, Caernarvonshire, Wales: Local Guide Book (Issued by the Bethesda & District Publicity & Traders Association). 4th Issue.*

Tafarnau'r ardal yn agored o 11.00 tan 3.00 ac yna o 6.00 tan 10.00.

1953

04/03/1953: Sefydlu Clwb Darbi a Joan yn yr hen Aelwyd ym Methesda.

05/1953: Troi Siop J. G. Hogan, Stryd fawr, yn Siop Fferyllydd i W. T. Parry.

Dathlu canmlwyddiant Capel Nant y Benglog. 'Llogwyd pabell fawr a'i gosod wrth ymyl y capel i roi lle i'r tyrfaoedd a ddisgwyliid yno, a dywedir i oddeutu wyth gant neu fwy o bobl fod yn gwrando ar y Parchedig Elfed Lewis yn traddodi un o'i bregethau olaf.

1954

Diwedd yr haf: gweithwyr J. Kenneth Hughes yn tynnu'r reilins a'r *porch* i lawr o flaen y Victoria Hotel.

Agor Ysgol newydd Llanllechid.

1955

Capel y Gerlan a Chapel y Carneddi yn uno dan Weinidogaeth y Parchedig Robert Hughes.

© Dr J. Elwyn Hughes

I'w barhau

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ni fu cyfarfod ym mis Rhagfyr, ond bydd dau gyfarfod arall cyn etholiadau Cynulliad Cymru ym mis Mai, a chynhelir Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes ar Ebrill y 9fed. Mae nifer yr aelodau wedi dyblu ers yr etholiad cyffredinol – llawer yn rhai ifainc, a rhai'n ail-ymaelodi. Nodir hefyd bod nifer yr aelodau drwy Brydain bron wedi dyblu yn ystod yr un cyfnod.

Mae taflen gyntaf Sion Jones (ymgeisydd Llafur Arfon yn etholiadau Cymru) wedi'i dosrannu gyda chymorth gwerthfawr gwirfoddolwyr.

Ni fu llawer o guro drysau yn ystod y tywydd anffafriol diweddar, ond bu cryn dipyn o ganfasio ar y ffôn.

CÔR Y PENRHYN CYMERIADAU'R CÔR

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw **Dafydd Evans**.



Be ydy dy enw llawn?
Dafydd Evans
Oed?
74
Gwaith?
Athro wedi ymddeol
Lle wyt ti'n byw?
Penisarwaun, yn wreiddiol o Benygroes
Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?
Penderfynol, diamynedd, cymwynasgar
Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?
1971 – yn syth ar ôl 'steddfod Bangor. Wedi bod yn Gadeirydd deirgwaith ac yn drefnydd llwyfan am flynyddoedd.
Pa lais?
Ail fâs
Pam wnes ti ymuno â Chôr y Penrhyn?
Ein cyfeillion Walt a Menai yn estyn gwahoddiad i mi.
Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?
Y Tangnefeddwyr
Pwy yw dy hoff ganwr?
Bryn Terfel
Beth yw dy farn am ganu pop?
Ambell gân ddistaw a swynol yn iawn, ond 'dyw'r mwyafrif yn ddim byd ond sŵn aflafar
Oes gen ti atgof o ryw ymweliad efo'r cor?
Oes – yng Nghanada. Swyddogion y 'Maid of the Mist', sef y cwch sy'n hwylio drwy'r ewyn o dan Raeadr Niagara yn gwrthod rhoi côt law i mi am nad o'n i'n gwisgo crys – 'roeddwn wedi ei adael ar y bws gan ei bod mor boeth. Bu'n rhaid i mi dreulio gweddill y dydd mewn trowsus a sgidia socian.
Pa ddiddordebau sydd gen ti y tu allan i'r Côr?
Peldroed, darllen, croeseiriau, gwyllo teledu
Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wnued?
Parhau i ddenu aelodau ifanc fel sy'n digwydd ar hyn o bryd – dyna'r dyfodol!

Cofiwch bod ôl-rifynnau o'r Llais ar gael ar wefan y papur:
www.llaisogwan.com

SYPYN O STRAEON CELWYDD GOLAU

Mae cymeriadau diddorol a lliwgar Dyffryn Ogwen a Chwarel y Penrhyn wedi cael sylw gan sawl awdur a llenor lleol – pobl fel Ifor Bowen Griffith, Huw Davies, Tregarth, Y Parchedig John Alun Roberts, Ernest Roberts, ac eraill. Dw i am ddyfynnu ambell un o'r 'straeon celwydd golau' a gafodd eu cofnodi gan un neu ddau o'r cyfeillion hyn.

Hen gymeriad o'r enw John Graig Lwyd yn aelod o'r Cor mawr ym Methesda oedd yn trefnu i fynd i America. Gwaetha'r modd, roedd ei wriag yn daer dros iddo fo beidio â mynd – rhag ofn i'r llong suddo ac iddo ynta fodd. 'Dewadd', meddai ynta, 'gyda'r glanna' rydan ni am fynd – ac mi fyddan ni'n dod i'r lan bob nos i gysgu'!

Does dim angen cyflwyno Wil Ritsh, gan fod digon wedi'i ddeud a'i sgwennu amdano'n barod. Omd mae'n werth cofio iddo siarsio ar ei deulu i ofalu, pan fyddai farw, fod y saer eirch yn rhoi ffenast yn ei arch – er mwyn iddo gael gweld pwy oedd wedi dod i'w angladd!

Rhai o angladdau mwya Dyffryn Ogwen oedd angladdau dynion o oedd wedi cael eu lladd yn y chwarel, gyda channoedd o'u cydweithwyr yn gorymdeithio ar hyd gwahanol strydoedd yr ardal tuag at un o fynwentydd y fro. Ar un achlysur felly yn yr ardal, pan ddywedodd rhywun 'Cnebrwng mawr, 'te' wrth un o gymeriadau'r Dyffryn, a oedd yn adnabyddus iawn am ei straeon celwydd golau, ac atebodd hwnnw: 'Dim byd o gymharu â chynebrynga Mericia', dw i'n cofio mynd i gnebrwn rhyw senator yn Philadelphia – dyna i ti gnebrwn mawr oedd hwnnw. Ro'n i'n un o'r pedwar ola yn y cnebrwn, ac erbyn i mi gyrra'dd giât y fynwent, roedd y creadur wedi ei gladdu ers chwe wythnos'!

Criw o hogia Tregarth yn sgwrsio un diwrnod ac yn gweld trên yn dod rownd tro go siarp wrth ddod o geg twnnel. 'On'd ydi hwnna'n dro go gïaidd', meddai un ohonyn nhw. A dyma gyfle euraidd i gelwydd gola! 'Dydi hwnna'n ddim byd, hogia. Pan o'n i'n Mericia, mi welais i droiadau oedd mor ofnadwy nes roedd y dreifar a'r giard yn gallu ysgwyd llaw efo'i gilydd'.

Broliai John Pritchard ei fod wedi bod yn gweithio mewn gwesty enfawr yn America un tro. 'Wyddost ti', medda fo, 'roedd dwy fil o ddynion yn gweithio yng nghegin yr hotel 'ma a phum cant ohonyn nhw'n gwneud dim byd ond cymysgu mwstard drwy'r dydd.'

John Pritchard yn teithio ar drên yn America ac yn smocio'i getyn yn braf ac yn mwynhau'r golygfeydd. Pan stopiodd y trên mewn gorsaf i godi teithwyr newydd, daeth rhyw Amercicanwr swnllyd ac uchel ei gloch i mewn i'r cerbyd a chanddo'r ci bach dela welwyd erioed. Tynnodd sylw John at yr arwydd yn gwahardd ysmygu yn y cerbyd ond yr un pryd mi sylwodd John yntau fod arwydd ar ffenast arall yn y cerbyd yn gwahardd dod â chŵn i mewn i'r cerbyd a thynnodd sylw'r Americanwr at yr arwydd hwnnw. Aeth yn ffrae chwyrn rhynddyn nhw nes i'r Amsericanwr golli ei limpyn yn lân a chipio cetyn John o'i geg a'i daflu allan drwy'r ffenast. Gwylltiodd John yn gacwn a chydiodd yng nghi bach yr Americanwr a'i luchio allan drwy ffenast y trên. "Choeliwch chi ddim, efallai," meddai John, 'ond pan stopiodd y trên yn y stesion nesaf – ugeiniau o filltiroedd i ffwrdd – roedd yr hen gi bach yn eistedd yn ddel ar y plattform a 'nghetyn i yn ei geg!'

Oes gan ddarllenwyr Llais Ogwan ragor o straeon tebyg, tybed?

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Nos Sul, 6 Rhagfyr, yng Nghapel Penuel, Bangor, cynhaliwyd ein Gwasanaeth Carolau a drefnwyd gan Mr. Norman Evans, un o'n haelodau. Yn dilyn gweddi agoriadol gan weinidog Penuel, sef Y Parchedig Olaf Davies, cafwyd darlleniadau gan aelodau a chyfeillion, sef:- Mrs. Mair Griffiths (Llywydd); Mrs. Mair Tilsley. Merched y Wawr, Bangor; Miss Iona Jones, Is-gadeirydd; Y Parchedig Olaf Davies; Cyngorydd Evelyn Butler, Maer Bangor; Mrs. Ann Roberts, Cyfeillion; Mr. Dewi Morgan, Trysorydd; Mrs. Glenys Morgan, Cyfeillion; a Dr. Catrin Elis William, Is-lywydd. Cafwyd eitemau cerddorol ac ar lafar gan ddisgyblion Ysgol Tryfan, a hefyd gan Math ac Elen, gyda Mrs. Helen Williams yn cyfeilio. Cyflwynwyd dwy garol gan Mr. Norman Evans. Mrs. Enid Griffiths oedd wrth yr organ. Gwnaed casgliad o £350.00 ac fe dderbyniwyd rhodd gan Gwmni Redrow o £250.00. Wedi'r gwasanaeth cafwyd lluniaeth yn y festri wedi'i baratoi gan yr aelodau. Diolch iddynt am y wledd ac i aelodau Penuel am eu help. 'Roedd y capel a byrddau'r festri wedi eu harddu gyda blodau hyfryd gan Iona Jones. Rydym fel aelodau o'r "Cyfeillion" yn anfon ein cofion cynnes at Mrs. A. M. Pritchard, Mrs. Dorothy Proudley Williams a Mr. a Mrs Iorys Griffiths. Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu ein diweddar aelod a fu farw'n sydyn, sef Mrs. Laura Wade.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

LLENWI'R CWPAN
Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

Hanes Gŵr Hynod

William Meurig Williams (1922-2012)



William Meurig Williams tua 1945

Yn ôl rhywun oedd yn ei adnabod yn dda, dyn ‘pur o galon’ oedd William Meurig Williams, a heb amheuaeth dyn rhyfeddol iawn. ‘Rydym yn ffodus iawn bod Meurig wedi adrodd ei hanes mewn dwy gyfrol a gyhoeddodd ef ei hun, sef *Dannadd y Gelyn* a *Berlin Exploit*. Nid oedd yn un am ganu ei gloch ei hun – dim ond fel Taff a Taffi 2388292 ‘rydym yn cael adnabod yr awdur. Serch hynny, ‘roedd yn amlwg yn awyddus i rannu ei brofiadau a’i deimladau ag eraill.

Y Dyddiau Cynnar 1922-1940

Fe aned Meurig ar Fehefin 11, 1922 mewn fferm fechan yng Nghaeau Gleision, Rhiwlas. Fo oedd yr ieuengaf o dri o blant a anwyd i’r Cynghorydd R. T.Williams a’i wraig Mary. Bu farw ei dad pan oedd Meurig yn ifanc ac o’r herwydd gorfodwyd ei fam i weithio’n galed ar y fferm. Yn bedair ar ddeg oed, fe ymunodd Meurig gyda chwmni yng Nghaernarfon fel prentis saer. Bu gyda’r cwmni nes iddo gael gwŷs i ymuno â’r lluoedd arfog ym 1941. Yn ystod ei gyfnod gyda’r cwmni, byddai’n beicio o Riwlas i’w waith bob dydd. O ganlyniad, pan ymunodd â’r fyddin, ‘roedd yn ddyn ifanc heini iawn. Ymunodd Meurig â’r ‘15th Scottish Infantry Division’ ac wedi cyfnod byr ym Mhrestatyn, treuliodd ei gyfnod hyfforddi yn ucheldir yr Alban.

Y Fyddin 1941-1946

Bu ei gyfnod yn y fyddin yn un anodd ond bu ‘breuddwydio am bentref Rhiwlas ar odre Moelyci a Moel Rhiwen’ yn gysur a chymorth mawr iddo. Mae ei

amser fel milwr yn haeddu cyfrol ar wahân. Gwasanaethodd yn Ffrainc, Gwlad Belg, Yr Iseldiroedd a’r Almaen. ‘Roedd yn un o’r rhai cyntaf i gyrraedd Berlin ym 1945 ac yn un o’r rhai cyntaf i dystio i erchylltra’r gwersyll crynhoi. Fel athletwr brwd, cafodd ei ymweliad â’r Reichsportfield, sef y meysydd chwaraeon a adeiladwyd gan Hitler ar gyfer gemau Olympaidd 1936, effaith fawr arno. Cysgodd yn y stadiwm enfawr o dan fainc goncrit wrth ymyl y trac lle’r enillodd ei arwr, Jesse Owens, ei bedair medal aur.

Wedi’r rhyfel teithiodd Meurig i Awstria i gynorthwyo gyda’r dasg o ailsefydlu miloedd o garcharorion rhyfel Almaenig.

Cymru 1946-1996

Wedi ei helyntion yn y fyddin, dychwelodd i Gymru, ac i’w annwyl gynefin, ‘Eryri fynyddig i mi, bro dawel y delyn yw’. Fe briododd ei annwyl Luned (sef Eluned Morris, merch crydd o Ddeiniolen) ym 1951, a bu’r ddau’n byw yn gytûn a bodlon ym Mangor hyd y diwedd. ‘Roedd yr Wyddfa yn her iddo bob bore Sul, ‘waeth pa dywydd oedd hi’. Byddai’n cychwyn tua’r copa am ddau o’r gloch y bore, gan geisio torri ychydig funudau oddi ar ei record flaenorol bob tro. Ar un achlysur, ac er mwyn codi arian at achos da (capel Tŵr Gwyn, Bangor), fe redodd i fyny (‘mewn tywydd ofnadwy’) bum gwaith mewn pedair awr ar ddeg!

Cafodd Meurig waith gyda’r Awdurdod Ysbytai, yn gyfrifol am gynnal a chadw adeiladau’r Awdurdod ledled Gwynedd. Ar ôl ymddeol, penderfynodd, gyda chefnogaeth eraill, sefydlu

cangen o’r Samariaid ym Mangor. Aeth ati’n frwdfrydig i addasu’r adeilad a roddwyd iddynt yn ddi-rent gan yr Awdurdod Iechyd. Wedi ei agoriad swyddogol, fo oedd yn un o’r rhai cyntaf i wirfoddoli.

Croatia 1996

Er mor nodedig yw’r hyn a gyflawnodd fel milwr ac athletwr, heb os ei gyfraniad arbennig fel dyngarwr sy’n haeddu’r sylw pennaf. ‘Roedd ei gariad yn gwbl ddiamedol, heb ffiniau gwlad, na hil, na lliw.

Yn 73 mlwydd oed mae’r rhan fwyaf yn cymryd seibiant i edrych yn ôl ar fywyd llawn a phleserus. Ond nid felly Meurig! ‘Roedd o’n awyddus i wneud gwaith elusennol ychwanegol yng Nghymru neu du hwnt. Ym 1995, penderfynodd fynd i Croatia i gynorthwyo rhai o’r miloedd a oedd mewn angen mawr yn dilyn pedair blynedd o ryfela ffyrnig. Gydag o ar y daith, aeth â miloedd o’i arian ei hun mewn pedwar bag ysgafn, camera, pasbort, ei Destament Newydd a ‘bron dim byd arall’.

Yn agos at bentref Makarska yn ne Croatia, ‘roedd gwersyll i ffoaduriaid. Cerddodd yr 50 milltir o Split i’r gwersyll hwnnw. Pan gyrhaeddodd, ‘roedd golygfa ‘frawychus, truenus ac erchyll’ yn ei wynebu ac meddai: ‘Gwelais beth oedd yn weddill o unrhyw deuluoedd a oedd wedi ffoi a cherdded am fisoedd lawer i guddio yn y rhan hon o’r goedwig, ar ôl cael eu hel yn dreisgar o’u pentref’.

Fe’i hatgoffwyd o’i brofiad hanner can mlynedd ynghynt yn yr Almaen, ‘atgofion o gyrff dynol wedi’u llurgunio, mewn siambrau nwy drewllyd ... atgofion y gwnawn unrhyw beth i’w anghofio’.

Mae ei ddisgrifiadau o’r gwersyll yn rhai graffig a chignoeth: ‘yma yn yr hen gytiau hyn, a adeiladwyd dros 50 mlynedd yn ôl, pob un tua’r un maint â gwarchodfa bws, ‘roedd wyth person yn rhannu eu bywyd, yn byw ac yn cysgu. Nid oedd carthffosiaeth iawn, a olygai fod carthion yn llifo lle’r oedd plant yn chwarae ac yn byw.’

Ond yng nghanol yr holl erchylltra, fe ganfu Meurig y cariad oedd yn wastad yn ei gynnal – ‘roedd y peth rhyfedd a elwir yn gariad i’w deimlo o hyd.’

Ar ôl rhai dyddiau yn y gwersyll, llwyddodd Meurig i brynu bwyd ar y farchnad ddu mewn pentref cyfagos. ‘Roedd o wedi llwyddo yn ei nod ond ‘roedd hefyd bellach yn flinedig ac yn sâl ond, meddai, ‘er fy henaint, ‘roeddwn yn Gymro i’r carn ac yn benderfynol o ddal ati’.

Ym Mehefin 1996, fe adawodd Meurig y gwersyll a Chroatia. Wrth iddo hedfan dros yr Alpau, aeth ei feddyliau’n ôl at gyfnod 1940-1946 a’r cwestiwn ‘A oedd eich taith yn wirioneddol angenrheidiol?’ Iddo fo, roedd y rhai a fu’n garcharorion yn y gwersyll am dros bedair blynedd ‘yn frodyr a chwiorydd i ni.’

Alwyn Llwyd
Caerdydd, Rhagfyr 2015

Gwasanaeth Nadolig Cymunedol y Dyffryn



Unwaith eto, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel Jerusalem ar y nos Sul cyn y Nadolig. Daeth cynulleidfa hynod o deilwng ynghyd i fod yn rhan o’r digwyddiad blynyddol pwysig yma, a chael cyfle i dreulio orig fechan i ddathlu gwir ystyr Gŵyl y Geni . Cafwyd eitemau cerddorol gan Gôr y Dyffryn, Côr Meibion y Penrhyn, Côr Ysgol Dyffryn Ogwen, Erin Fflur (enillydd cystadleuaeth yr unawd lleisiol yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen 2015), Math Roberts (enillydd cystadleuaeth yr unawd offerynnol yn yr Eisteddfod

honno), gyda Beti Rhys yn cyfeilio ar yr organ i’r carolau cynulleidfaol. Cyflwynwyd y darlenniadau gan John Ogwen, Angharad Llwyd, Alun Llwyd, Arwyn Oliver a Lowri Roberts. ‘Roedd y canu cynulleidfaol yn rymus, ac awyrgylch hyfryd yn ymledu drwy’r capel. I goroni’r noson, ymunodd y corau i gyd i ganu’r fersiwn roc o ‘Haleliwia’ gan Handel. Dymuna trefnydd y noson, Menai Williams, ddiolch o galon i’r corau a’r unigolion, a roddodd o’u hamser yn gwbl ddi-dâl, ac i bawb am eu cefnogaeth. Gwnaethpwyd elw sylweddol o £510.00 tuag at godi ysbyty yn yr India.

COF AM YR ARDDERCHOG BEDAIR MIL

Y CHWALFA FAWR

....na welwyd mo'i thebyg mewn unrhyw fro yng Nghymru mewn cyn lleied o amser

PORTREAD gan **Goronwy O. Roberts**

Yn holl hanes y Mudiad Llafur, nid oes bennod ffyrnicach na phrydferthach na honno sydd yn delio , brwydrau chwarelwyr llechi Bethesda yn erbyn gormes Penrhyn a thros gydnabyddiaeth i'w Hundeb. Efallai ei bod eto yn rhy gynnar i sgrifennu'r hanes yn llawn, oblegid nid ffeithiau economaidd a gwleidyddol yn unig sydd ynddo ond llawer trasiedi personol hefyd. Mae s n yr ymladd ar ein clyw o hyd, a'i gysgod ar fythynnod tlawd hyd heddiw.

Daeth hyn oll i'm meddwl wrth ddarllen ysgrif Mr Emyr Hywel Owen ar 'Beth o Gefndir Chwalfa' yn y cylchgrawn *Lleufer*. Ni allaf feddwl am neb gwell nag ef i ymgymryd ,r gwaith o groniclo holl hanes y cyfnod cythryblus hwn yn Nyffryn Ogwen.

Fe wyddom am Mr Emyr Owen fel athro ac addysgydd a gyfrannodd yn sylweddol eisoes, yn enwedig trwy ei *Atlas Sir Gaernarfon*, i waith ysgolion Cymru. Y mae hefyd yn fab i chwarelwr a brofodd chwerwder y chwalfa ac yn nai i un o arweinyddion 'yr ardderchog bedair mil' a gododd yn erbyn trais Lord Penrhyn a'i herio am dair blynedd.

Y mae rhamant, gogoniant a dwyster yn hanes y brotest yn erbyn y syniad ffiwdal a ffiaidd mai'r lord a oedd piau'r creigiwr fel y graig, a dim ond un a naddwyd o'r graig honno a fedr ei hadrodd yn iawn.

Y mae popeth yn *Lleufer*, o dan olygiaeth Mr David Thomas, yn werth ei ddarllen, ond y mae'r ysgrif hon yn werth ei thrysori. Ynddi y mae barddoniaeth a barn. Y mae'r farddoniaeth yn y darlun hyfryd a hiraethus o'r gymdeithas werinol, Gymraeg a chwalwyd gan y Streic Fawr. Y mae'r farn yn llethol o'r dihirod barus a lwyddodd erbyn hyn i ddarn-ladd yr ardal a'i diwydiant.

Cae o wenith

Cymdeithas ddiwyd,

ddiwylliedig, grefyddol oedd eiddo Bethesda, medd Mr Owen, drigain mlynedd yn ôl. Yng nghapel y Gerlan, cynhaliai'r Parchedig John Owen ei ddosbarth mewn Rhesymeg. Yn y Carneddi, bugeiliai'r Prifardd J. T. Job. Ym Methesda ei hun, athronyddai David Adams yn anuniongred ac yn gyfareddol.

Ar y Pasg, symudai'r dyffryn fel cae gwenith gan y tyrfaoedd cymanfaol, ac felly'r Sulgwyn. Ar bonciau'r chwarel, drwy'r wythnos, naddwyd y cerrig a holltwyd y blew diwinyddol. A rhyw bedair milltir i ffwrdd, safai'r castell codog *nouveau riche*, anllythrennog.

Sgotyn uniaith Seisnig oedd ei arglwyddiaeth, a Sais uniaith oedd ei arolygwr, E. A. Young. Cymry uniaith oedd y chwarelwyr. O'r cychwyn, ni bu amodau gwaith a chyflog yn dda yn y chwarel, ac yn 1896 daeth pethau i ben. Gwrthododd Robert Owen a David Davies gyfarfod ag Arglwydd Penrhyn i ddadlau eu hachos ar eu pennau eu hunain. Mynnent fynd drwy eu pwyllgor, hynny yw, trwy eu Hundeb. Saciwyd y ddau ac yna trowyd holl aelodau'r pwyllgor allan o'r gwaith.

Cyhoeddwyd llythyr Arglwydd Penrhyn yn Gwalia (ci cyfarth Toriaidd y castell) a llosgwyd y papuryn hwnnw yn bentyrrau ar lawr y chwarel gan y chwarelwyr, a dyna ddechrau'r streic un-mis-ar-ddeg a barhaodd o Hydref 1896 hyd Fedi 1897.

Ffarwel

Dyna hefyd gychwyn y chwalfa, fel y dengys Mr Emyr Owen, Anogwyd y gŵr ifainc, di-briod, i fynd i ffwrdd i weithio, ac aethant wrth y cannoedd – i waith d r y Rhaeadr, i Ddyffryn Nantlle a Nant Conwy, i Gaer a Lerpwl a De Cymru, a thros y môrr i bellafoedd byd.

I gynnal y gw r priod a'u teuluoedd gartref aeth côr o amgylch y wlad i gynnal cyngherddau, a chasglu arian. Dyma'r côr a ddaeth yn ail o un ar ddeg yn Ffair Fawr y Byd, Chicago. Casglodd gryn ddwy fil a hanner o arian. Cyfrannodd undebau eraill Prydain i'r drysorfa hefyd a daeth symiau o America a De Affrica. Ymhlith y rhai a danysgrifiodd yr oedd Owen M. Edwards, Emrys ap Iwan Puleston Jones ac eraill o wir fonedd Cymru.

Rhannwyd yn agos i ugain mil o bunnau yn ystod yr un mis ar ddeg hwnnw. Câi dynion dros ugain oed bunt bob pythefnos yn Ionawr 1897 ond daeth y swm i lawr i 12/6 erbyn mis Mawrth. Yna, ddiwedd yr haf tanbaid, anfonodd Mr Young ei gerbyd i

Fethesda i gyrchu aelodau'r pwyllgor i Dan y Bryn i siarad ag ef. Aeth y cerbyd yn ôl yn wag, a mynnodd y pwyllgor eu cerbyd eu hunain. Tynnwyd hwnnw wrth raffau gan gannoedd o streicwyr yr holl ffordd i Landegai – a dihangodd Young i'r mynydd am ei fywyd.

Hen arswyd

Daeth rhyw fath o heddwch anwadal, fel y disgrifir ef gan Mr Owen, ar ôl diwedd y streic un-mis-ar-ddeg ym Medi 1897. Erbyn diwedd 1900 yr oedd amodau gweithio yn y chwarel mor ddrwg fel y torrodd yr argae unwaith eto, a'r tro hwn parhaodd y streic am dair blynedd.

Yr oedd grym penderfyniad y streicwyr, medd Mr Owen, yn 'enghraifft dda iawn o Gadernid Gwynedd', ond achosodd y Streic Fawr lawer mwy o chwalfa na'r un o'i blaen. Dyfynnaf o eiriau Mr Owen:

‘...chwalfa na welwyd mo'i thebyg mewn unrhyw fro yng Nghymru mewn cyn lleied o amser; streic a achosodd dair blynedd o dlodi echrydus ac o fyw ar y nesaf peth i ddim i'r sawl a arhosodd ym Methesda. Clywais fy mam yn dweud iddi hi a'i thad orfod haneru wy rhyngddynt droeon yn ystod y tair blynedd hynny, ac mai'r pris a gâi am wau pâr o hosanau ar beiriant gwau oedd chwecheiniog. Nid rhyfedd i ohebydd y *Daily News* alw'r lle yn 'Desolate Bethesda'.

Yn naturiol, ar yr hen, y methodig a'r plant y pwysai'r newyn a'r dioddef yn fwyaf. Yn y *Daily News*, sgrifennodd David Edwards y frawddeg a ganlyn, a chofiaf yr arswyd a'm llethai, fel plentyn ysgol, flynyddoedd ar ôl hynny, pan ddyfynnodd yr Henadur Jeremiah Thomas y frawddeg yn fy nghlyw:

‘The children of Bethesda sit silent and haggard,’ meddai David Edwards, ‘for the languor of starvation will not let them play’.

Yn ystod y tair blynedd, casglwyd dros £41,000 i gronfa gynnal yr ardal trwy ymdrechion gwahanol undebau. Casglwyd hefyd dros £46,000 trwy gasgliadau unigol a rhoddion personol, ac fe rydd Emyr Owen fanylion hynod o ddiddorol am y gronfa hon. Aethai teuluoedd o amgylch ardaloedd agos a phell i gasglu rhoddion, a ‘darlithiodd un chwarelwr diwylliedig yn

ardaloedd Môn ac Arfon a chasglodd ef £67.’

Agorodd papurau newydd radicalaidd Cymru a Lloegr eu colofnau i'r apêl a chaed dros bum mil drwy hynny. Ymhlith rhoddwyr unigol yr oedd dynion fel Will Thorne, George M. Ll. Davies, Ellis W. Davies a Sidney Webb, ‘ac y mae eglwysi Ymneilltuol Cymru benbaladr yn rhestr y rhoddwyr.’

Y tri chôr

Aeth tri chôr o amgylch i ganu – dau gôr meibion ac un côr merched. Casglasant £32,000 yng Nghymru, Lloegr a Sgotland. Y mae'n debyg na bu llawer ohonynt ddim pellach na Llandudno cyn hyn, a chawsant gyfle yn awr i ‘weled pobl a phethau na fuasai'r siawns leiaf iddynt eu gweld pe na bai am y streic.’ Gwelsant gofgolofn Daniel Owen yn yr Wyddgrug, medd Mr Owen, a buont yng nghartref Robert Raikes a George Whitfield yn Gloucester. Clywsant Philip Snowden yn darlithio ar ddirwest yn Leicester, ac arweiniwyd hwy dros D 'r Cyffredin gan William Jones, A.S.

Aethant heibio i garchar merched Aylesbury, a'r *convicts* a chwysai ar garreg galed Portland. Clywsant Gipsy Smith yn Highbury, a Syr Edward Clarke yn dadlau achos Arglwydd Penrhyn yn erbyn William John Parry yn y llys yn Llundain. A gwelsant Tottenham Hotspur yn chwarae pêl-droed.

Daeth gŵr amlwg y wlad i lywyddu yn eu cyngherddau - yn Glasgow, wrth gwrs, y llywydd oedd yr Athro Henry Jones, ac yn Llundain caed Campbell-Bannerman ac Asquith i lywyddu. Yr oedd Keir Hardie a David Lloyd George ar lawer llwyfan gyda hwy, a bu Ramsay Macdonald gyda hwy yn Leicester, a'r Dr Clifford a'r Parch, R. J. Campbell yn llywyddu yn Llundain.

‘Nid oedd flewyn ar dafod rhai o'r gw r hyn wrth ddisgrifio'r chwalfa ym Methesda,’ medd Mr Owen, ‘Rhyw greadur rhwng Pharo a Nero’ oedd Arglwydd Penrhyn i Ben Tillet ... ‘a lord who was not a man’ oedd Arglwydd Penrhyn i Lloyd George pan ddisgrifiodd ef yr Arglwydd yn cadw nifer o chwarelwyr a geisiai osod eu hachos ger ei fron, ar eu traed am bedair awr, ac yntau ei hun yn eistedd mewn cadair esmwyth fel petai'n Judge Jeffreys.’

parhad ar y dudalen nesaf...

Fel y dengys Mr Emyr Owen, nid y gwleidyddion yn unig a gefnogai'r corau. Cododd mwy nag un cyflogwr goleuedig ei lais drostynt a thros berthynas briodol rhwng meistr a gwas; yn Bethnal Green, daeth yr Iddewon a chanu yn eu cyngerdd; helpid hwy gan Fyddin yr Iachawdwriaeth a'r Y.M.C.A. yn aml; ‘ac yn Sheffield daeth rhyw Gymro bach a'i delyn i'w cyngerdd i berfformio; a llu o rai eraill yn eu tro – hen warder o garchar Portland, organydd Eglwys Gadeiriol Lincoln, Crynwyr Clerkenwell a Methodistiaid Cyntefig Northampton.'

Canai'r corau yn aml yn yr awyr agored, gan gynnwys maes pêl-droed Yeovil. ‘Buont mewn capelau yn perthyn i bob enwad, ac mewn clybiau'n perthyn i bob plaid – edifarhau, fodd bynnag, a wnaeth Ceidwadwyr Dartford ar ôl iddynt ganu un noson yn eu clwb hwy, a bu raid canu yn y Workingmen's Club y noson ddilynol.'

Yr emynau

Rhydd Mr Owen restr o'r caneuon a ganent yn Lloegr, Yn naturiol, yr oedd hymnau a Handel yn amlwg. Caed yr Haleliwia, y **Laughing Chorus, Martyrs of the Arena, Comrade's Song of Hope, a Magnify the Lord.** Ond yn Sgotland yr oedd yn rhaid dysgu a chanu alawon y wlad honno.

Ymhlith yr emynau yr oedd Ebenezer, Aberystwyth, Huddersfield, Andalusia, a Threwen – a dywedodd y Dr S. W. Hughes, cyn-gadeirydd Eglwysi Rhyddion Prydain, wrthyf unwaith mai'r corau hyn a ddaeth , rhai o donau mawr Cymru i adnabyddiaeth y Saeson.

Ond, yn bennaf, yr wyf yn hoffi cyfeiriad Mr Owen at yr unawdwyr. Unawdwyr tenor, wrth gwrs, oedd llawer ohonynt ac y mae'r tinc ariannaidd i'w glywed o hyd mewn cynulleidfa yn Arllechwedd. Canent yr **Holy City, a'r Blue Alsatian Mountains, Sweet Genevieve, ac Ora Pro Nobis.** Ac nid oedd y baswyr yn brin. **Who Shall be King?** gofynnai'r baswr o'r bwthyn. A chanai hefyd **Arm, Arm ye Brave** a **Down in the Deep.**

Gweinyddid y gronfa gynnal gan bwyllgor – nid oes well pwyllgorwr na'r chwarelwr – a William John Parry oedd y cadeirydd, un o bileri radicaliaeth y cyfnod, a gŵr rhyfeddol mewn llawer ystyr. Gwnaeth Mr Roose Williams

draethawd am ei radd M.A. ar y gŵr nodedig hwn, a deallaf ei fod yn waith rhagorol.

Yr ysgrifennydd oedd y Parch. W. W. Lloyd. A chynllun y pwyllgor oedd talu i'r siopau am nwyddau a gyflenwid i'r teuluoedd anghenus.

Y bunt

Yn naturiol, bu bylchau yn y rhengau. Torrodd ambell un ei galon a derbyn ‘punt y gynffon’ sef y bonws a delid gan Penrhyn i'r sawl a ddychwelai i'r gwaith. Achosodd hyn chwerwder a chynnwrf mawr o dro i dro, a galwyd plismyn a milwyr allan i achub yr heddwch – ond stori arall yw honno, nad yw'n llefain am gael ei chyhoeddi.

Terfynwyd y Streic Fawr yn Nhachwedd 1903. ‘Dau yn unig o bwyllgor y streic a ofynnodd am gael mynd yn ôl i'r Chwarel – Owen Griffith a John Roberts – a gwrthodwyd y ddau. Aeth Owen Roberts i falu metlin i berfeddion Nant Ffrancon a dihoenodd John Roberts i'w fedd cyn ei amser... ac yr oedd angladdau yn amlach yn Nyffryn Ogwen yn y blynyddoedd wedi 1903 nag y buont na chynt na chwedyn.'

Mwy na'r dyrfa a aeth yn ôl i'r chwarel oedd y dyrfa a aeth i ffwrdd i weithio ac na ddaethant yn ôl. Mae'n wir, fel y dywed Mr Owen, fod rhai wedi dychwelyd, ond cyn iddynt hwy setlo i lawr ac ail-greu y gymdeithas a ddrylliwyd, daeth rhyfel 1914-18, a dechrau chwalfa arall. Aeth llawer to i Barrow, Lerpwl a Manceinion, a minteioedd i orffwys ger y ffos ddu yn Fflandrys ac ar draeth enbyd Gallipoli.

Rhwng y rhyfeloedd, yr oedd tua dwy fil yn gweithio yn y chwarel ond gwyro yr oedd y fasnach drwy'r blynyddoedd nes daeth yr ail ryfel byd i chwalu'r gymdeithas unwaith eto.

‘Rhyw drigain mlynedd a gymerodd hi, fwy neu lai,’ medd Mr Owen ar derfyn ei ysgrif, ‘i gael cymdeithas Gymraeg diwedd y ganrif ar ei thraed yn ardal Chwalfa; trigain mlynedd hefyd a gymerodd i'w dinistrio.'

Mae tua mil yn gweithio, meddir yn y chwarel, a dywed cymdeithas y perchnogion fod y diwydiant ar ymlediad mawr. Gobeithio yn wir. Ymledodd yn ddirfawr yn y blynyddoedd a fu. Bu'n foddion i adeiladu ardal gyda'r Cymreiciaf a gyda'r gloywaf yn Ewrop. A bu'n foddion i adeiladu castell hefyd.

Ond prif adeiladwaith y chwarelwyr yw'r esiampl o undeb a phenderfyniad a roesant i werin pob gwlad. A dyna gastell a saif byth.

CARNEDDI ROAD

AR DDIWEDD Y PUMDEGAU A DECHRAU'R CHWEDEGAU

Gan ANDRE LOMOZIK

Tachwedd 29ain 1952, dyna ddyddiad pwysig yn fy hanes, sef dyddiad fy ngeni yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, yn fab i Addie a Betty Lomozik. Wedi treulio ychydig amser yn nhŷ Taid a Nain yn y Gerlan, symudodd Mam a Dad a minnau i fyw i fwthyn bach yn Rachub, tros y ffordd i bopty Cae'r Groes, cyn symud unwaith eto pan oeddwn i tua blwydd a hanner oed, i'n cartref newydd, sef 25 Carneddi Road. Dyma ganol y bydysawd i mi am y rhan fwyaf o'm plentynodod.

- Regent 2. Gweithdy Addie (Dad) 3. Ffatri Indiaroc 4. Tir Anial 5. Cilfodan St. 6. Popty Trefor Hughes 7. Popty Elias Hughes 8. Capel Salem 9. George Inn 10. Siop Anti Côt 11. Idwal Hughes Crydd 12. 69 Carneddi Rd, cartref Trevor fy ffrind 13. Siop Sglodion 14. Siop Gwallt 15. Cigydd 16. Lladd-dy 17. Sheffield Stores 18. Capel Carneddi 19. Siop Ffosters 20. Rhif 100 Carneddi Road. Rhif 25 Carneddi Road -Tŷ ni.

Lle braf iawn oedd Carneddi Road fel y'i gelwid yr adeg honno, - enwau Saesneg fel Water St., Middle St. a Gray St. oedd ar y strydoedd cyfagos. ‘Roedd tai Carneddi Road yn rhedeg o rif un i gant, yn cychwyn o gyfeiriad Rachub tua'r Gerlan. Dim ond olion rhif un a dau a welais i erioed, - ‘roedd y ddau dŷ yma wedi eu dymchwel cyn i mi eu cofio.

Yn eu lle'r oedd depo petrol Regent (1) yn sefyll (lle mae Meithrinfa Ogwen yn awr), gyda ffens fawr uchel o'i amgylch. Braf oedd cael mynd i fynnydd uwchben fferm Cae Ifan Cymro yn ystod gwyliau'r haf gyda ffrindiau ac edrych i lawr ar y holl brysurdeb, gyda'r lorïau yn cychwyn allan ar eu rownd ac yn dod yn ôl i lwytho drachefn.


Ychydig ymhellach ymlaen o'r Regent ‘roedd gweithdy fy nhad (2). ‘Roedd o ac un neu ddau o'i gyd-wladwyr wedi sefydlu'r gweithdy yno ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, ar ôl ymgartrefu ym Methesda. ‘Roeddynt yn gwneud pob math o waith peirianeg yno, o gynhyrchu giatiau i ffermwyr yr ardal i atgyweiro ceir a wagenni a lorïau i drigolion a busnesau'r ardal. Ar ôl i dad ymgymeryd â'r busnes yn llawn, fe ehangwyd y busnes a dechrau gwerthu paraffin, gyda lori yn mynd i leoedd fel Bangor,

Deiniolen, Waunfawr, Rhosgadfan a Llanfairfechan. ‘Roedd dau danc mawr yng nghefn y gweithdy, un yn dal y paraffin a'r llall yn dal diesel. Bron bob bore Sadwrn y pryd hynny ‘roeddwn yn gorfod mynd i'r gweithdy a llenwi'r lori gyda pharaffin a diesel yn barod ar gyfer rownd dydd Llun.Roedd hyn yn waith braf yn ystod yr haf ond yn waith caled ac oer yn y gaeaf, gyda glaw yn rhedeg oddi ar y to ac i lawr fy nghefn. Peth arall oedd yn rhaid ei wneud oedd llenwi'r peiriant gwerthu gwm cnoi, gwagio'r arian ohono a mynd â'r ceiniogau adref i'w cyfri. ‘Roedd y peiriant yma wedi'i osod ar ddrws y gweithdy ac weithiau byddai un o'r pacedi gwm cnoi yn torri, felly nid oedd modd rhoi hwnnw yn y peiriant. Ond ‘roedd yn berffaith iawn i mi ei gnoi!

Tros y ffordd i weithdy fy nhad ‘roedd ffatri indiaroc (3). ‘Roedd y ffatri wedi'i lleoli yn Cymro St. gyda nifer o hen dai wedi'u addasu i'r pwrpas. Nid wyf yn cofio am ba hyd y bu'r ffatri mewn bodolaeth, ond oddi fewn i'r adeiladroedd bwrdd mawr hir metel. ‘Roedd y bwrdd yn debyg i botel dŵr poeth, yn llawn o ddŵr poeth yn rhedeg trwyddo, er mwyn toddi'r indiaroc tra ‘roedd yn cael ei gynhyrchu. Wedi i'r lle gau i lawr cafodd Dad y bwrdd i'w ddefnyddio fel mainc yn y gweithdy. Dyma lle'r oeddem ni'r plant yn cadw ein deunydd ar gyfer noson tân gwyllt. ‘Roedd yn lle delfrydol i gadw pethau'n sych gan ein bod yn casglu hen bapur a bocsys ar gyfer y noson fawr wythnosau ymlaen llaw.

Drws nesaf i'r ffatri, ar yr hyn oedd yn dir anial (4) ar y pryd,' roeddem yn cynnal ein tân gwyllt, ac ‘roedd yn rhaid mynd i fyni i'r ffridd i gasglu coed. ‘Roedd yn rhaid i ni fod yn gyfrwys iawn wrth fynd dros y caeau i fyni am y ffridd, rhag i'r ffermwyr ein gweld, dod a'r coed i lawr, ac yna eu gosod wrth y creigiau ar y tir anial. Cyn y noson fawr dringo i ben y creigiau a neidio i mewn i'r domen i weld pa mor ddewr oeddem. Ar y pumed o Dachwedd deuai pawb at ei gilydd i wagio'r hen ffatri o'r papurau a bocsys ac ‘roedd y bechgyn hŷn yn cael hen deiars gan fy nhad i'w rhoi ar y goelcerth, ac ychydig o baraffin i wneud yn siŵr ein bod ni'n cael ‘bonfire’ go iawn. Un diwrnod tra'r oeddwn ar ben y creigiau gyda rhai o'm ffrindiau cefais afael ar gaead tun mawr, a dyma benderfynu ei daflu i lawr fel ‘flying saucer’.Ei weld yn hedfan

Hen daflen



Y DAITH GERDDED NODDEDIG FLYNYDDOL

Oherwydd amgylchiadau ‘roedd yn rhaid newid dyddiad y daith eleni o fis Gorffennaf i fis Medi. Oherwydd hyn nid oedd cymaint o gerddwyr ag sydd wedi bod ar y teithiau blaenorol. Er hynny fe gasglwyd swm anrhydeddus iawn eto eleni sef, £2914.80c.

Penderfynwyd rhannu’r arian fel a ganlyn: Nyrs Clic Ysbyty Gwynedd (Eleri Fôn) – £1350. 00
Cyfeillion Ysbyty Gwynedd £1440. 00
Clwb Hanes Rachub 124.80

Mawr yw ein diolch unwaith eto eleni i nifer o bobl a fu’n hael yn cefnogi’r daith: Jonathan a Siop Londis am gasglu arian a rhoi nwyddau tuag at y picnic.

Valmai ac Alan, Tacsí A1, am gludo’r cerddwyr at Lyn Ogwen, a hynny yn rhad ac am ddim.

Anti Doris, fferm Maes Caradog, am adael i ni gynnal y picnic ar y fferm a hefyd am ddefnydd o’r tŷ ar y diwrnod.

Iain a Janet, Siop Rachub, am eu rhodd at y picnic.

Stella Davies am ei haelioni.

Diolch i’r cerddwyr, nid yn unig am roi o’u hamser i fynd ar y daith, ond hefyd am gasglu’r holl arian, ac i bawb a roddodd gymorth mewn unrhyw ffordd i sicrhau llwyddiant y daith.

Os oes gennych wybodaeth am elusennau lleol yr ydych am inni gasglu arian tuag atynt drwy’r daith nesaf yn 2016, cysylltwch â Raymond ac Ann ar 01248 601077.

parhad ar ‘Carneddi Road’

trwy’r awyr ac yn syth drwy ffenestr Mrs Hughes, - ‘roedd hi allan o’r tŷ cyn i ni fedru dianc a phawb yn anelu bys ataf fi fel y troseddwr, a Dad yn gorfod talu am atgyweirio’r ffenestr!

Tŷ pen oedd ein cartref ni, sef No 25 Carneddi Road, gydag allt yn mynd heibio talcen y tŷ i fyny i gyfeiriad fferm Cilfodan. I fyny’r ffordd hyn hefyd ‘roedd popty Trefor Hughes (6). Roedd ganddo siop ar y Stryd Fawr ym Methesda, sef Siop No.1. Ar nosweithiau braf o haf, gyda’r ffenestr yn agored, ‘roeddwn yn clywed y dynion yn taro’r bocsys bara ar y byrddau i gael y bara allan ohonynt ar ôl iddynt gael eu pobi. Stan Williams (Stan Baker), a fu yn ofalwr yn Ysgol Dyffryn Ogwen am nifer o flynyddoedd wedyn yn yr 80au, Dafydd Davies ac Anthony Jones oedd y tri yr wyf yn eu cofio yn gweithio yno. Weithiau byddem yn cael sbarion rhai o’r teisennau ganddynt, ‘cream horn’ oedd fy , ac ‘rwyf yn dal i fwynhau un o bryd i’w gilydd hyd heddiw. ‘Roedd y lludw o’r popty yn cael ei gario i’r ardd y tu cefn i’r adeilad ac yn fryniau o lwch coch. Ychydig pellach ymlaen o bopty Trefor ‘roedd popty arall, sef becws Elias Hughes, (7). ‘Roedd o leiaf ddau arall yn gweithio yno hefyd, sef ei fab yng nghyfraith, Seymor, a dyn o Rachub.

Tros y ffordd i’n tŷ ni ‘roedd stryd o’r enw Cilfodan St. gyda dim ond tri thŷ yn y rhes. ‘Roedd y stryd yn arwain at chwarel Pantdreiniog, ble ‘roeddem yn chwarae ar benwythnos, a bron drwy’r haf. ‘Roedd pob math o geir wedi’u gadael yno ac ‘roeddem yn gallu gwneud gwersyll ynddynt. Gêm arall oedd hel poteli gwag, a’u gosod ar hen slab mawr o goncrit, yna dringo i ben y domen a dechrau taflu cerrig atynt, - digon hawdd i ddechrau, ond y person oedd yn taro’r botel olaf i sefyll oedd brenin y diwrnod. Byddem hefyd yn chwilio am nythod jac-y-do er mwyn gweld y cywion, ac ar ddiwrnod gwyntog ‘roeddem yn mynd i hedfan barcud

Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid

Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid.

Daeth criw cartrefol ynghyd yn Festri Carmel i fwynhau noson gymdeithasol, panad a mins pei! Roedd nifer helaeth o’r aelodau wedi dod a ffotograffau, ac fe dreuliyd munudau lawer yn pori drwyddynt. Mrs Helen Williams a drefnodd y noson, a chawsom rywfaint o hanes ‘Alaw Llechid’ sef cyfansoddwr y garol enwog ‘Wele’n Gwawrio Ddydd i’w Gofio’ ganddi. Uchafbwynt y noson oedd cael un o blant ifanc yr ardal, sef Efa Glain Jones, i berfformio carol fodern, ac yn wir, roedd hi’n ardderchog!' Does ryfedd yn y byd iddi ddod yn ail ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, ac iddi ennill tarian am y perfformiad cerddorol gorau yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen! Roedd yn noson hyfryd, a diolch i bawb a’i trefnodd.

o ben pella’r domen. Bu i sawl un fynd i waelod y twll wrth i’r cortyn dorri gan fod y gwynt mor gryf. Ar ôl capel ar nos Sul braf o haf, byddai rhai o’r dynion yn cerdded i ben draw’r domen ac eistedd yno yn cael smôc a sgwrs, a gwylio’r ceir yn dod ar hyd yr A5 o gyfeiriad Bangor, gan droelli trwy’r pentref i fyny heibio cae pêl-droed Parc Meurig i gyfeiriad Nant Ffrancon.

Yn ôl ar hyd Carneddi Road, ychydig yn uwch i fyny na’n tŷ ni ‘roedd Capel Salem, (8) a berthynai i’r Annibynwyr (lle roeddwn i a mam yn aelodau). Yma yr awn i’r Ysgol Su,l a’r Band of Hope yn ystod misoedd y gaeaf, a chofiaf orfod dysgu deunydd ar gyfer yr arholiad. Un tro ‘roeddwn wedi bod i lawr at afon Ogwen, ac wedi gwlychu wrth chwarae yno. Cyrhaeddais adref a mam wedi gwylltio yn lân, ac aeth â mi i’r arholiad fel ag yr oeddwn i wneud fy rhan. Miss Gertrude Thomas, oedd arolyges yr ysgol Sul, a nifer o oedolion eraill yn athrawon, yn eu mysg Mrs Brooks, Anti Cêt, a Mr William Jones.‘Roedd gan Mr Jones, (taid Stephen Jones yr ymgymwrwr) rywbeth blasus yn ei boced bob Sul i ni i’w fwyta tra yn y wers.

Yn union drws nesaf i’r capel ‘roedd y George Inn, (9), nid Y Siôr fel y’i gelwir heddiw! Yno, âi dynion lleol am ychydig i gymdeithasu. (PARHAD MIS NESAF)

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Nos Fercher, Ionawr 27
am 7 o’r gloch
yn Festri Capel Carmel.
Bydd Mr. Alaw Jones
yn trafod
‘Waliau Cerrig Diddorol yr Ardal’
CROESO CYNNES!

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard
Llais Afon, 2 Bron Arfon, Rachub LL57 3LW

☎ 601880

Clwb Llanllechid

Cafwyd croeso cynnes iawn yn Ysgol Llanllechid ar Ddydd Gwener, Rhagfyr 4ydd. Mawr oedd y pleser o wylïo a gwrando ar blant yr ysgol yn cyflwyno eitemau cerddorol a llafar i ni. Dilynwyd hyn gyda the pnawn blasus iawn. Mae Ysgol Llanllechid yn gwahodd a chroesawu aelodau o'r clwb atynt bob Nadolig, a hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r plant, i Mrs G Davies Jones, y brifathrawes, a holl staff yr ysgol a'r gegin am eu croeso arferol.

Cinio Nadolig

Canolfan Noddfa, Penmaenmawr oedd lleoliad y cinio Nadolig eleni a hynny ar Ragfyr 15fed. Wele'r criw yn cychwyn o Rachub gyda Derfel Owen wrth y llyw. Mwynhawyd cinio ardderchog ac mae'r aelodau am ddiolch i Staff y Ganolfan am eu croeso a'r paratoadau, ac i Derfel am sicrhau eu bod yn cyrraedd yn ôl yn saff.

parhad ar y dudalen nesaf...

LLAIS

| 8 |

OGWAN

Braichmelyn

Rhiannon Ifans
Glanaber, Pant, Bethesda

 600689

Gwellhad Buan
Anfonwn ein cofion cywiraf at Dr. Goronwy Wyn Owen, sydd ddim yn dda ar hyn o bryd, a hefyd Mrs Norma Roberts, 59, Braichmelyn, sydd wedi derbyn llawdriniaeth. Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda I chwi, ac i bawb ym Mraichmelyn yn 2016.

Y Gerlan

Ann a Dafydd Vaughan Williams
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan

 601583

Colled
Yn ystod mis Rhagfyr bu farw Dave Pledger, Stryd y Ffynnon. Roedd Dave wedi byw yma ers dros 35 o flynyddoedd, ac yn berson hoffus a hynaws iawn. Roedd yr ardal hon yn agos iawn at ei galon, ac ‘roedd i’w weld yn aml yn cerdded y bryniau a’r mynyddoedd o gwmpas y dyffryn gyda’i het fawr, gantel-lydan ar ei ben, a’i gamra yn ei law. Bydd colled fawr ar ei ôl gan ei ffrindiau i gyd

Croeso adref
Rydym yn croesawu Lisa Jên a’r teulu yn eu holau adref i’r Gwernydd. Mae Lisa wedi bod yn gweithio yng Nghaerdydd, mewn perfformiad o’r sioe Candylyon, ers nifer o wythnosau bellach, a symudodd yr holl deulu i lawr gyda hi dros y cyfnod. Bu Liwsi Mo a Betsi Lw yn ddisgyblion mewn ysgol Gymraeg yn y brifddinas. Erystal yr ysgol honno, mae’n sicr eu bod hwy yn falch iawn o gael bod yn eu holau gyda’u ffrindiau yn Ysgol Abercaseg, fel y bydd eu ffrindiau yn falch iawn o’u gweld hwy unwaith eto. ‘Rydym yn dymuno’r gorau i Lisa, sydd yn awr yn dechrau ymarfer ar berfformiad o Chwalfa yn Pontio, perfformiad fydd i’w weld yn y theatr ganol Chwefror

Pen-blwydd arbennig iawn
Ddechrau Ionawr dathlodd Myfanwy Jones, Gwernydd, ei phenblwydd yn 90 oed. Mae’n anodd credu ei bod wedi cyrraedd yr oedran hwn, gan ei bod mor heini ei cherddediad, ac ifanc ei hysbryd a’i hymddygiad, ac yn mynd i lawr i siopa ym Methesda yn rheolaidd. ‘Rydym i gyd yn eich llongyfarch yn fawr

iawn, Anti Myf, ac yn gobeithio ichi fwynhau’r dathlu gyda theulu a ffrindiau. Dymunwn bob hwyl i chi i’r dyfodol.

Penblwydd Cyntaf
Penblwydd cyntaf hapus i Dei Madog, Stryd y Ffynnon, oedd yn flwydd oed ar 13 Ionawr. Swsus mawr oddi wrth mam a dad.

Blwyddyn newydd dda
Gobeithio i chi i gyd gael gwyliau llawen, ac ‘rydym yn dymuno blwyddyn newydd dda i chi i gyd. ‘Rydym yn gobeithio’n fawr na fu i’r tywydd difrifol yma ‘rydym wedi ei ddioddef ers wythnosau amharu ar neb ohonoch, trwy ddifrod i gorff neu eiddo. ‘Rydym yn gwir obeithio y bydd i’r tywydd newid yn fuan, ac y cawn lawer llai o law a gwynt yn y misoedd nesaf. Rhys Evans a Mathew Morris, y ddau o Stryd Morgan ar eu penblwyddi arbennig. Gobeithio i’r ddau ohonoch gael penblwydd arbennig o hapus, a diwrnod i’w gofio. Pob dymuniad da i’r ddau ohonoch i’r dyfodol

Dathlu’r 60
Llongyfarchiadau mawr i Arfon Griffith, Ffordd Gerlan, ar ddathlu ei benblwydd yn 60 oed yn ddiweddar. Gobeithio iti fwynhau’r dathlu, Arfon. Pob dymuniad da iti, Arfon, gan bawb o’r pentref

Diolch
Dymuna Ann Williams, Stryd y Ffynnon, ddiolch i bawb a gefnogodd y bore coffi a drefnodd yn ddiweddar er budd Apêl y Ffoaduriaid. Diolch yn arbennig i bawb a fu’n ei chynorthwyo, ac i’r rhai a gyfrannodd at y bore mewn unrhyw ffordd. Codwyd swm o £235 a throsglwyddwyd ef i Gronfa Eglwys Glanogwen tuag at yr Apêl.

Calan
Braf oedd gweld Patrick Rimes, Gwernydd, adref yn ei ardal y mis hwn. Roedd Patrick, sy’n rhan o’r grwp hynod o boblogaidd, Calan, yn cynnal noson yn Neuadd Ogwen. Mae Patrick yn gerddor arbennig o dalentog, ac mae Calan yn brysur iawn yn diddori cynulleidfaoedd yng Nghymru a’r tu allan i’r wlad. Da iawn, chi, Calan, a da iawn, chdi, Patrick!

Cofion
Rydym yn gyrru ein cofion at bawb yn yr ardal, yn enwedig y rhai hynny nad ydynt yn dda eu hiechyd, ac yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Mwynhewch yr Wyl.

Eglwys Sant Tegai

Cyngerdd Côr Merched “Cantabile”
Ar nos Wener Rhagfyr 18, cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig Côr Merched “Cantabile”. Cafwyd amrywiaeth o gerddoriaeth tymhorol, yn cynnwys carolau hen a newydd, darlleniadau ac eitem ar y clychau bach gan y “Cantabile Chimers”. ‘Roedd yn noson lwyddiannus dros ben a bu cyfle i’r Ficer, y Parchedig John Matthews, ddiolch i’r arweinydd John Hywel , y cyfeilydd Helen Davies, yr unawdydd Emlyn Aethwy Jones, y darllenydd Gill Howell a holl aelodau’r côr. Aeth elw o £200 i Gronfa Atgyweiro Eglwys Sant Tegai. **Gwasanaeth Naw Llith a Charol Sant Tegai**
Cynhaliwyd ein gwasanaeth traddodiadol yng ngolau canhwyllau ar nos Sul, Rhagfyr 21. Bu criw o ferched o’r gynulleidfa o dan arweiniad Hefina Chamberlain yn brysur yn addurno’r adeilad mewn lliwiau Nadoligaidd arian a gwyn. Diolch iddynt am eu gwaith called, ac i’r Ficer, Sue, Ann, Rhian, Edmond, Nerys a’r organydd Geraint Gill am drefnu’r gwasanaeth. Y darllenwyr oedd Liz Bestwick, Gwenan Llewelyn Jones, Janette Roberts, Huw Pritchard, Hazel Jones, Morwenna Bean, Dorothy Hanks, Ann E.Williams a’r Parchedig John Matthews. Ar ddiwedd y noson daeth pawb i Neuadd Talgai i fwynhau gwin poeth Hefina, mins peis a

theisennau. Diolch i Nerys Jones am drefnu’r lluniaeth. **Gwasanaeth Ysgol Llandygai yn yr eglwys**
Braf oedd cael croesawu disgyblion Ysgol Llandygai i Sant Tegai ar brynhawn Llun, Rhagfyr 22. Mae’r cysylltiad rhwng yr ysgol a’r eglwys yn glos, a’r Ficer yn ymweld â’r disgyblion yn wythnosol. Arweinwyd y gwasanaeth gan y Ficer a’r Pennaeth dros dro, Mr Elfed Morgan Morris, ac amryw o athrawon a llywodraethwyr, yn cynnwys Rhian Llewelyn Jones ac Ann E Williams o gynulleidfa Sant Tegai yn cyflwyno gweddiau a stori’r Geni. ‘Roedd parti recorders yr ysgol a chorau plant o bob oedran yn cyfrannu i’r rhaglen a drefnwyd gan Mrs Manon Griffiths, Ysgol Llandygai. Diolch yn fawr iawn i’r athrawon a’r plant am eu gwaith caled . Mae’r eglwys yn falch o gael helpu ariannu datblygiad cerddoriaeth yn yr ysgol. ‘Roedd y goeden Nadolig anferth yn drawiadol iawn ond sut oedd y seren wedi ei gosod ar y brig ? Dyna oedd y cwestiwn mawr ar wefusau’r plant!
Codi Arian i Sant Tegai yn Neuadd Talgai
Bydd Bingo arbennig ar gyfer y Gronfa Atgyweiro am 7 or gloch yr hwyr nos Fawrth, Ionawr 26. Ceir Raffl Fawr Santes Dwynwen gyda champagne a blodau fel rhai o’r gwobrau. Croeso i bawb. **Dymuniadau gorau**
Mae nifer o aelodau’r eglwys yn dioddef o anhwylder. Pob dymuniad da iddynt ar gyfer y flwyddyn newydd.

Gwefan Hanes Dyffryn Ogwen



Mae’r wefan uchod wedi ei sefydlu ers Mis Tachwedd ac mae oddeutu deg safle o ddiddordeb eisoes wedi ymddangos gan gynnwys Tŷ Dŵr Gerlan , Tŷ John Iorc, Chwarel y Foel, Rachub, cilfachau Telford ac yn y blaen. Mae adroddiadau byr wedi eu paratoi ar tua cant o adeiladau, safleoedd cynhanes, pentrefi, chwareli, capeli ac eglwysi, heb anghofio rhai o’r personoliaethau arbennig oedd yng nghlwm a hwy, sydd wedi cyfrannu at greu hanes rhyfeddol ein hardal ni yn Nyffryn Ogwen. Mae’r dewis felly yn eang a bydd lluniau, mapiau a delweddau perthnasol wedi eu hatodi gyda pob cyfraniad. Agweddau yn unig at hanes y Dyffryn a gyflwynir ac mae’r wefan yn agored i bawb gyfrannu at ei chyfoethogi.
Cyfeiriad y wefan yw: hanesdyffrynogwen.wordpress.com
John Ll W Williams a Lowri Wynne Williams

Bethesda

Ffiona Cadwaldr Owen

Bryn Meurig Bach,

Coed y Parc, Bethesda,

LL57 4YW



601592

Joe Hughes

Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,

RachubLL57 3LW



601902

Ymweliad â Phlas Ogwen
Ymwelodd y Cynghorydd Paul Rowlinson, Cadeirydd Cyngor Cymuned, Bethesda, a'r Cynghorydd Ann Williams, Aelod Lleol Cyngor Gwynedd, gyda Phlas Ogwen ychydig cyn y Nadolig. Cyflwynwyd anrheg i bob preswlydd gan y Cyng. Rowlinson. Diolch i Mandy Roberts, y Rheolwraig, a'r holl staff am eu gwaith caled trwy'r flwyddyn, a diolch i'r preswylwyr a'r staff am eu croeso. 'Rydym yn ffodus o gael cartref fel Plas Ogwen yn ein cymuned gyda'r gofal arbennig a roddir i'r holl breswylwyr.

Diolch
Dymuna Hefin, Llifon a'r teulu, 17 Hen Barc, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gwraig a mam annwyl, sef y ddiweddar Eirian Jones. Diolch am y rhoddion hael tuag at Uned Dydd Alaw.

Diolch hefyd i'r Parchedig Geraint Roberts, Mrs Menai Williams yr organyddes ac i Gareth Williams am ei drefniadau trylwyr a gofalus.

Babi Newydd
Llongyfarchiadau mawr i Alex a Cassie ar enedigaeth merch fach, sef Lottie Wyn. Da hefyd cael llongyfarch Henryk a Carol, Ystad Coetmor, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf, a Mrs. Elsie Evans, Garneddwen, ar ddod yn hen nain. Y teulu oll wedi gwirioni efo'r fechan!

Ysbyty
Cofion cynnes at sawl un a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall fod rhai wedi dychwelyd gartref erbyn hyn. Gwellhad i chwi oll, a chofion at bawb sy'n sâl yn eu cartrefi. Dyma rai a ddaeth i sylw'r Llais:- Mr. Joe Evans, Glanffrydlas; Mr. Llew Tudur, Pant Glas; Mr. Roy Jones, Stryd Fawr; Mr. Bert Hughes, Stryd John ac Owie Williams, Maes y Garnedd.

Dyweddiad
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da ar achlysur eu

dyweddiad i Lois a Mathew, Erw Las. Mae Lois yn ferch i Helen ac Arfon, Erw Las, a Mathew yn fab i Jason a Gwenda, Y Groeslon.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr. a Mrs. Trystan Pritchard a'r plant, Allt Pen y Bryn, yn eu profedigaeth o golli nain a hen nain ym Mhenrhosgarnedd.

Nain a Hen Nain
Llongyfarchiadau i Mrs. Julie Davies, Pant Glas, a Mrs. Doris Jones, Maes Coetmor, ar yr achlysur hapus o ddod yn nain a hen nain yn dilyn genedigaeth merch fach i Chris a'i gymar ym Mae Colwyn.

Gorffwysfan
Ar ddydd Mercher, 16 Rhagfyr, yn y Clwb Criced a Bowlio, cafwyd cinio Nadolig ardderchog wedi ei baratoi gan Karen a staff Caffi Coed y Brenin. Croesawyd pawb gan ein cadeirydd gyda chroeso arbennig i Eirwen, Erw Las, yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty. Offrymwyd gweddi cyn y cinio gan Ceri Dart. Wedi'r cinio cafwyd gêm o Bingo a raffl, a diolchwyd i bawb am y trefniadau gan y cadeirydd. Yna, ar brynhawn dydd Iau, 17 Rhagfyr, aeth rhai o'r aelodau i Ysgol Dyffryn Ogwen am de prynhawn ac adloniant. Unwaith eto, cafwyd gwledd a chroeso cynnes gan bawb. Diolch yn fawr iawn!

Tlws Cyngor Cymuned Bethesda

Enillydd Tlws Cyngor Cymuned Bethesda am yr addurniadau Nadolig gorau mewn ffenestr siop ar y Stryd Fawr eleni oedd Blodau Hyfryd. Dywedodd Cadeirydd y Cyngor, y Cyng. Paul Rowlinson: "Roedd yn bleser mawr gweld cynifer o ffenestri deniadol eleni. Roedd llawer o'r busnesau wedi gwneud ymdrech dda iawn i greu ffenestri hardd dros ben. Roedd y cyfan yn creu argraff dda iawn i'r Stryd ac yn fodd i ddenu pobl i weld beth sydd gan ein siopau i'w gynnig. Hoffwn longyfarch Siop Blodau Hyfryd am ei ffenestr ragorol."

MERCHED Y WAWR, BETHESDA

Dydd Gwener Rhagfyr 11eg dathlwyd y Nadolig gyda chinio yng ngwesty Bryn Menai Caernarfon. Cafwyd dewis helaeth o fwydlen Nadolig draddodiadol o dwrci a'r trimins arferol neu gigoedd eraill gan gynnwys eog. Yna'r pwdin 'dolig cartref neu dreiffl. Canmolodd pawb yr awyrgylch gartrefol a safon y bwyd ardderchog. 'Roedd yn union fel cinio adref.

Diolchwyd am y cyfan, y lluniaeth a'r trefniadau a wnaed gan Gwenno a Jean, yn gynnes iawn gan y llywydd Elina. Anfonodd ein cofion i'r aelodau a fethodd fod yn bresennol a chydymdeimlwyd â Rita Bullock a'r teulu yn eu profedigaeth o golli brawd.

Cyfeiriodd Elina at y ffaith ei bod yn ddiwrnod cofio'r Tywysog Llywelyn ap

Gruffudd neu Llywelyn Ein Llyw olaf, a fu farw ar Ragfyr 11eg 1282 (gweler nofelig Peter Gordon *The Life and Death of a Warrior* cyh. Y Lolfa.) Gwnaeth apel i ni gyd fod yn Gymry da yn ystod y flwyddyn nesaf, pan fyddwn yn trafod newidiadau i drefn y cyfarfodydd oherwydd anabledau henoed ac afiechyd yr aelodau. Dymunodd Nadolig Llawen a Blwyddyn newydd dda i bawb Edrychir ymlaen at y cyfarfod nesaf ddiwedd Ionawr.

Marchnad Ogwen

Blwyddyn Newydd Dda i holl ffrindiau Marchnad Ogwen - yn Stondinwyr a chwsmeriaid! 'Rydym wedi cael blwyddyn lwyddiannus dros ben ac mae ein diolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi cefnogi'r Farchnad yn 2015. Mae tair o'n cwsmeriaid - sydd wedi ein cefnogi trwy'r misoedd diwethaf ac wedi defnyddio eu 'Cerdyn Glas' yn y Farchnad - wedi bod yn lwcus! Enillydd y wobr o £50 oedd Mrs Bessie Buckley, Tregarth. 'Roedd dwy wobr o £25 ac fe'u henillwyd gan Mrs Beryl Burgess, Bethesda a Ms Sharon Williams, Pentir. Oherwydd llwyddiant y Farchnad Nos ym mis Tachwedd, mae un arall wedi ei threfnu ar Ebrill 20fed. Mae cryn edrych ymlaen! Mae Stodin Elusen mis Chwefror yng ngofal Clwb Llewod Dinas Bangor - sy'n cyfrannu at achosion teilwng yn y gymuned.

Bydd **Cyfarfod Blynyddol Marchnad Ogwen** Chwefror 15fed yn y Douglas Arms am 7 o'r gloch. Bydd y Farchnad nesaf Chwefror 13eg yn Neuadd Ogwen o 9.30 - 1.30 ac mae croeso cynnes i chwi oll. Mae'r wybodaeth gyfredol am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar *Facebook* a *Twitter*.

Newyddion Sefydliad y Merched, Carneddi ar dudalen 21.

Cyng Paul Rowlinson a'r Cyng Ann Williams gyda rhai o breswylwyr Plas Ogwen yn ystod yr ymweliad.

LLAIS

| 10 |

OGWAN

Yr Eglwys Unedig, Bethesda

Cyfarfu'r Gymdeithas nos Iau, Rhagfyr 10fed. Croesawyd pawb gan Joe Hughes, y Llywydd, a darllenwyd yr englyn gan Neville. Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Parti Traeth Lafan, a diolchwyd iddynt gan Jean Ogwen Jones. Diolchodd hefyd i'r merched a oedd yn gweini'r baned, sef Carys, Beryl, Heulwen a Minnie.

Fore Sul, Rhagfyr 13eg, cynhaliwyd Gwasaneth Nadolig yr Ysgol Sul. Rhaid canmol y plant a'r pobl ifainc am eu perfformiadau caboledig, a hefyd Lowri a Menai am eu gwaith yn eu paratoi. Diolch i Sioned a Fflur am eu gwaith hwythau gyda'r plant iau, ac i Nerys, Alwenna a'r rhieni am baratoi a gweini gwledd i ni i gyd ar gyfer y parti a ddilynodd y Gwasanaeth. Rhaid diolch hefyd i Siôn Corn am ddod atom i rannu anrhegion i'r plant. Gwnaed casgliad o dros £160.00 tuag at yr Ysgol Sul ar fore cofiadwy iawn. Gyda'r hwyr, cawsom gwmni'r Parchedig WR Williams mewn oedfa hyfryd – diolch iddo yntau.

Fore Sul, Rhagfyr 20, cawsom y frainc o groesawu'r Parchedig Ddr. Huw John Hughes i'n gwasanaethu, ac yna, gyda'r hwyr, cynhaliwyd ein Gwasanaeth Nadolig Cymunedol, gyda chynulleidfawr wedi dod at ei gilydd – noson arall i'w chofio. Mae'r casgliad o £510.00 yn mynd tuag at adeiladu ysbyty yn yr India. Diolch i Menai am drefnu'r cyfan yn ôl ei harfer. Fore'r Nadolig, cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun o dan ofal y Parchedig WR Williams – diolch yn fawr iddo unwaith eto.

Cofiwch am 'Lenwi'r Cwpan' bob bore Iau rhwng 10 a hanner dydd – dewch am baned a sgwrs ddifyr mewn awyrgylch cynhesol!

CYHOEDDIADAU: IONAWR
17: Y Parchedig WH Pritchard
24: Mr Richard Lloyd Jones
31: Yng ngofal yr aelodau (10:00 a 5:00)
CHWEFROR
7: Y Parchedig D Coetmor Williams
14: Y Parchedig Cledwyn Williams
21: Y Parchedig Gwyndaf Jones
28: Y Parchedig Gareth Edwards



Y plant yn canu yn ystod Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr Eglwys Unedig.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:
Sul Cyntaf pob mis
Cymun Bendigaid – 8.00am

Boreol Weddi **Cymraeg** – 11.00am

Ail Sul pob mis
Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am
Trydydd Sul pob mis
Cymun Bendigaid dwyieithog – 110.00am
Pedwerydd Sul pob mis
Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
Pumed Sul
Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)

Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaid

Gwasanaethau Ionawr 2016

Sul, Ionawr 17
Ail Sul Yr Ystwyll
Cymun Bendigaid -11:00am
Sul, Ionawr 24
Trydydd Sul Yr Ystwyll
Cymun Bendigaid - 11:00am
Sul Ionawr 31
Pedwerydd Sul Yr Ystwyll
Ar y Cyd, St Cedol, Pentir, Cymun Bendigaid - 10:00am

Mae nifer o aelodau yn cwyno oherwydd amrywiol anhwylder. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi gan fawr obeithio y byddwch cyn hir yn medru mynychu rhai o'r gwasanaethau.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda, hapus, dedwydd a bendithiol i bawb.

Partneriaeth Ogwen

Ar y 25ain o Dachwedd, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Partneriaeth Ogwen. Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd adroddiad drafft a llongyfarchwyd y staff ar eu gwaith caled a diflino yn ystod 2015. Dim ond 3 aelod o staff sydd i'r Bartneriaeth – Sara de Waart, ein cynorthwydd yn Siop Ogwen a'r swyddfa, Donna Watts ein Clerc i'r tri chyngor cymuned (rhan amser) a Meleri Davies fel Prif Swyddog (rhan amser). Mae'r tair wedi gweithio'n galed ar amrywiol brosiectau dros y flwyddyn – yn bennaf, prosiect Hydro Ogwen, datblygu Swyddfa Ogwen yn gartref parhaol i'r heddlu a chartref dros dro i asiantaethau fel Cyngor ar Bopeth ac eraill, a datblygu siop lyfrau newydd Bethesda, Siop Ogwen. Mae'r Bartneriaeth yn brysur wneud gwahaniaeth ar Stryd Fawr, Bethesda gyda swyddfa'r Bartneriaeth yn cartrefu gwasanaethau cyngor amrywiol a hyd yn oed wersi gitâr! Mae Siop Ogwen hefyd, ein menter newydd gyda Neuadd Ogwen yn brysur dyfu gyda gwerthiant llyfrau i'r cyhoedd a sefydliadau lleol yn cynyddu yn gyson.

Yn ogystal â'r gwaith caled o ymsefydlu a rheoli'r Bartneriaeth o ddydd i ddydd, gellir crynhoi prif gyflawniadau Partneriaeth Ogwen yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

- Agor Canolfan Wasanaethau Lleol Ogwen a rheoli eiddo 26 Stryd Fawr gyda Heddlu Gogledd Cymru yn denantiaid ar lawr isaf yr adeilad a thenant lleol yn y fflat uwchlaw'r swyddfa.
- Busnesau/Sefydliadau newydd a grëwyd – 2 (Ynni Ogwen Cyf a Siop Ogwen)
- Derbyn Caniatâd Cynllunio a

datblygu cynllun Hydro Ogwen

- Swyddi wedi eu creu neu eu cynnal – 3
- Gwasanaethau Newydd a ddarparwyd o Ganolfan Wasanaethau Lleol Ogwen – 7 (Cymorth i Ferched, Wardeiniaid Ynni Grŵp Cynefin, Cynllun Nyth/Nest Llywodraeth Cymru, Banc Bwyd, Undeb Credyd Gogledd Cymru, Cymorth ar Bopeth a Chyfreithwyr Hugh James.)
- Mudiadau, cynlluniau a gweithgareddau cymunedol wedi cael cefnogaeth – Ffarm Moelyci/Gorymdaith/Cefnfaes/Maes Parcio Gerlan/Darganfod Dyffryn Ogwen/Cymru i Calais a mwy.

Mae prosiect Hydro Ogwen yn gyflawniad arwyddocaol ac mae wedi bod yn frainc ac yn hollbwysig fod y Bartneriaeth wedi sbarduno prosiect mor bwysig yn y dyffryn. Rydym yn awr wedi cofrestru Ynni Ogwen Cyf fel Cymdeithas Budd Cymunedol, ac Ynni Ogwen Cyf fydd yn datblygu prosiect Hydro Ogwen tua'r dyfodol. Mae'n gyfnod eithriadol o gyffrous i ni o ran ein cynlluniau ynni adnewyddadwy. Yn syth ar ôl derbyn ein trwydded echdynnu dŵr gan Gyfoeth Naturiol Cymru, byddwn yn cofrestru ein cynllun ar gyfer taliadau FITs gyda Ofgem. Rydym yn gobeithio agor cynllun cyfranddaliadau cymunedol i ddatblygu cynllun Hydro Ogwen ym mis Chwefror ac rydym yn awr yn trafod gyda chyllidwyr cynllun LEADER i'n helpu gydag ymgyrch farchnata broffesiynol i'r ymgyrch.

Mae Ynni Ogwen Cyf hefyd yn rhan o gonsortiwm Cyd Ynni, sef consortiwm o gwmnïau ynni cymunedol yng Ngwynedd. Mae hyn yn agor llawer o ddrysau i ni o fewn y sector ynni ac rydym eisoes yn cydweithio â chynllun Ynni Lleol – Energy Local i edrych ar botensial defnyddio ynni ein cynllun Hydro i gyflenwi trydan yn lleol.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn gyffrous a llwyddiannus i'r Bartneriaeth ac rydym yn ddiolchgar i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Diolch hefyd i'n Cadeirydd yn ystod y cyfnod, Paul Rowlinson. Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, etholwyd Dafydd Meurig i'r Gadair a Mair Pierce yn Is-Gadeirydd. Os hoffech gopi o Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth, mae croeso i chi dderbyn copi o'r adroddiad trwy gysylltu â partneriaeth@ogwen.org neu alw heibio'r swyddfa am sgwrs. Meleri Davies, Prif Swyddog , Partneriaeth Ogwen 01248 602131

Llandygái

Iona Wyn Jones
Dyma Fo, 16 Pentref
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eirlys Edwards
Sŵn y Coed, 23 Pentref
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Llongyfarchiadau i Steffan Evans, Pentre Llandygái ar ei lwyddiant diweddar. Cafodd ei ddewis gan Gynllun Addysg



CYNLLUN GYRWYR HŶN

Mae tîm diogelwch ffyrdd Cyngor Gwynedd wedi lansio cynllun ‘Gyrwyr Hŷn’. Fel rhan o’r ymgyrch, mae’r uned Diogelwch Ffyrdd yn hybu’r hyfforddiant sydd ar gael yn rhad ac am ddim i yrwyr hŷn 65+. Cefnogir y cynllun gan Lywodraeth Cymru.

Meddai Paula Owen, Swyddog Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd: “Mae’r cynllun yn gyfle i unigolion fynd allan gyda hyfforddwr gyrru cymwys yn eu car eu hunain am daith fer, ar ffyrdd cyfarwydd, er mwyn cael awgrymiadau a chyngor ar sut i aros yn ddiogel wrth y llyw. Bydd hyn yn help i drigolion hŷn gael cadw’r annibyniaeth maent yn ei gael drwy yrru car. Yn ystod yr wythnos, rydan ni wedi bod allan mewn amryw leoliad ac roedd cyfle i’r cyhoedd hefyd i holi am newidiadau yn y gyfraith a chael cyngor am fod yn yrrwr diogel.”

Ychwanegodd y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer Diogelwch y Ffordd: “Mae’n debyg fod ymchwil diweddar yn dangos fod perfformiad gyrru yn lleihau wrth i ni heneiddio, serch hynny nid yw’r dirywiad yn amlwg pob tro. Wrth gynnal cynlluniau fel rhain, mae’n sicrhau bod cyfle ymarferol i bobl hŷn wella eu sgiliau a rhoi mwy o hyder iddynt ar y lôn.”

Mae swyddogion diogelwch ffordd Cyngor Gwynedd mewn nifer o leoliadau yn ystod yr wythnos yn hybu’r cyrsiau. Mae modd darganfod mwy o wybodaeth am y cyrsiau wrth fynd i wefan Diogelwch Ffordd Gwynedd a Môn:
<http://www.dffgwyneddmon.net/gwyneddmon/cymraeg/> neu ffonio Paula Owen, Swyddog Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd, ar 01286 679 439.



Paula Owen, Swyddog Diogelwch Ffyrdd Gwynedd; y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd, a Robert Eifion Davies o Fethesda a fydd yn cymryd rhan yn yr asesiad gyrru.

Peirianeg Cymru yn Fyfyriwr y Flwyddyn 2015. Derbyniodd ei wobwr gan Ken Skates AS yng Ngwesty Vale Resort, Caerdydd. Mae Steffan yn ddisgybl ym mlwyddyn 13 yn Ysgol Friars, a dyma’r ail flwyddyn yn olynol i’r ardal brofi llwyddiant. Llynedd Angus Coyne-Grell or pentre oedd yr enillydd. Mae Angus bellach yn astudio Gwyddoniaeth Naturiol ym Mhrifysgol Caergrawnt.

Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn yr ardal oddi wrth Eirlys a Iona, Gohebwy y Pentre. Cofiwch gysylltu gydag unrhyw newyddion.

Y Gymdeithas Hanes

Rhagfyr
Wel am noson ddifyr - a hwyliog hefyd – a gawsom wrth i ni fynd “Ar y Bysus” yng nghwmni ‘r Dr. J. Elwyn Hughes, a’i ddau gynorthwydd profiadol, sef Dafydd Pritchard o deulu Moduron Porffor, a Derfel Owens, perchennog Bysus Gwyrdd Rhiwlas. Cafwyd stôr o wybodaeth am fysus a fu yn yr ardal, gyda lluo straeon am Gwmni Moduron Porffor, yn cynnwys dogn helaeth o droeon trwstan.

Diolch i’r tri ohonynt:- Elwyn, y prif gyflwynydd, am roi’r cyfan at ei gilydd; Dafydd am drosglwyddo’r straeon i Elwyn, a rhoi ei big i mewn ar y noson; a Derfel am rannu’r holl wybodaeth drylwyr oedd ganddo am yr hen fysus.



Nyth y Gân

Y Llwybr ger y Llyn

Mor braf oedd cerdded yno
Ar hyd y llwybr gynt
Gan wrando ar y synau
A greuwyd gan y gwynt.

Caed wyneb pedwar tymor
Yn eglur hyd y llawr,
Ond cuddid yr holl fangre
Pan ddeuai’r eira i lawr.

Ei wyneb gwyn a loywai
Dan olau’r ddisglair loer
Ar noson glir serenog
Boed dywydd mwyn neu oer.

Mae meddwl am y gwanwyn
A’r haf o hyd i mi
Yn deffro y dychymyg
I lifo fel y lli.

Yr adar ddeuai yno
I ganu am yn hir,
A lliwiau hynod natur
I grwydro hyd y tir.

Mor flêr yw’r llecyn heddiw,
Mieri, drain a chwyn
Sydd wedi ei orchuddio
A’i wasgu ef mor dynn.

Does neb yn sôn amdano,
Mae’n angof erbyn hyn
Ac ni bydd mwy o gerdded
Na sgwrsio ger y llyn.

Mona Lisa

Dynes yw hon a daniodd, a’i hwyneb
Hynod a ddangosodd;
Yno’n rhoi ei gwên yn rhodd,
Y cyfan, hi a’i cafodd.

Dafydd Morris

Er Cof am y Prifardd Gwynfor ab Ifor

Prifardd a fu yn garddio tiriogaeth
Trwy agwedd ddi-ildio;
Hefyd, rhoes heb anghofio
Ei orau ef i’w hen fro.

Goronwy Wyn Owen

Anrhydedd

Yn rhestr anrhydeddau'r flwyddyn newydd, dyfarnwyd Medal y Frenhines am Wasanaeth hyglo d i Ddirprwy Brif Gwnstabl Gogledd Cymru, Gareth Pritchard. Fel y gŵyr rhai ohonoch, mae Gareth yn fab i Eirian a'r diweddar Amwel Pritchard (18, Rhes Gordon gynt), fe'i magwyd ym Mryn Hafod y Wern, a chafodd ei addysg yn Ysgol Llanllechid ac Ysgol Dyffryn Ogwen, cyn ymuno â Heddlu Gogledd Cymru ym 1984. Llongyfarchiadau!

Capel Carmel

Y Clwb Gwau
Bu'r merched yn mwynhau eu te Nadolig yng Nghaffi Coed y Brenin ar Ragfyr 7fed. Diolch i Karen a'r genod am ofalu amdanom ac am baratoi te mor ardderchog. Cynhaliwyd y Te Bach wythnos yn ddiweddarach yn y Ffestri. Gan bod y Nadolig yn agosáu bu Eira a Gwenda yn brysur yn darparu gwledd ar ein cyfer. Diolch i'r merched a fu mor barod eu help yn ystod y misoedd diwethaf, gan sicrhau bod y Te Bach yn rhedeg yn hwylus ac yn llwyddiannus, ac i bawb a gefnogodd y gweithgreddau drwy'r flwyddyn.

Gwasanaeth y Nadolig
Daeth cynulleidfa niferus i'r capel i wrando ar y plant a'r bobl ifainc yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Y thema y tro hwn oedd 'Y Nadolig Gwyn', ac yn ystod yr oedfa cafwyd cyflwyniad dramatig gan y plant yn portreadu anifeiliaid yn chwilio am y ffordd i Fethlehem, gyda help mawr gan y tylluanod. Y plant lleiaf fu'n actio stori'r Geni tra bu aelodau'r Clwb Dwylo Prysyr yn darllen rhannau o'r Beibl ac yn canu carolau, gydag Owain yn cyfeilio ar yr organ.

Bore'r Nadolig
Cynhaliwyd gwasanaeth o ganu carolau, darlenniadau, gweddïau, unwadau a chylch offerynnol o garolau ac alawon y Nadolig. Diolch i bawb a gymrodd ran. 'Roedd yn braf gweld cymaint o aelodau ifainc yn y gynulleidfa, llawer ohonynt wedi dychwelyd i'r ardal i ddathlu'r Ŵyl. Cafwyd eitemau hefyd gan Charmaine, Mabon a Gwydion. 'Roedd y casgliad eleni yn £116 ac fe'i trosglwyddir i Apel Nadolig Cymorth Cristnogol.

Trefn Gwasanaethau
Ionawr 17: Y Parchedig Ddr. Siôn Aled Owen (2.00yp)
Ionawr 24: Y Gweinidog (5.00)
Ionawr 31: Y Parchedig Ddr. Dafydd Wyn Wiliam (2.00)
Chwefror 7: Y Gweinidog (Cymun) (5.00)
Chwefror 14: Y Parchedig Dafydd Coetmor Williams (5.00)
Chwefror 21: Y Parchedig John Lewis Jones (5.00)

Yr Ysgol Sul am 10.30 yb.
Clwb Dwylo Prysyr: Nos Wener am 6.30 yh.
Te Bach: Dydd Llun, 25 Ionawr. 2.30 – 4.00. Croeso cynnes i bawb.

Croeso Adref
I Abbie Edwards, Ffordd Llanllechid, a fu'n treulio tri mis yn gwneud gwaith gwirfoddol yn Tansaïa, Affrica. Cawn fwy o hanes Abbie yn y rhifyn nesaf.

Geni
Llongyfarchiadau i Non ac Awen, Llwyn Bleddyn, ar enedigaeth merch, sef Nel Beca - chwaer i Efa.

.....
CAPEL CARMEL
TE BACH
PNAWN LLUN
IONAWR 25, 2016.

2.30 - 4.00 O'R GLOCH

CROESO CYNNES I BAWB
.....



Gwasanaeth Nadolig, Capel Carmel



Clwb Llanllechid

Talybont

Neville Hughes
14 Pant, Bethesda

☎ 600853

Capel Bethlehem

Gwasanaeth Nadolig i'r Teulu

Daeth cynulleidfa dda ynghyd i'r oedfa Nadolig yng nghwmni plant yr Ysgol Sul ar yr 20fed o Ragfyr. Diolch i bawb a fu'n cymryd rhan, yn blant ac oedolion, gyda diolch arbennig i Barbara Jones am ei holl waith caled. Mwynhawyd parti gan y plant, a phaned a mins pei i bawb ar y diwedd. Gwnaed casgliad arbennig o £127.00 tuag at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol. Diolch yn fawr i bawb!



Gwasanaeth Nadolig Capel Bethlehem

Llifogydd yn amharu ar Oedfaon

Am yr ail dro mewn tair blynedd daeth llifogydd â'u llanast i Fethlehem, gan wneud cryn ddifrod i'r festri a'r capel. Golyga hyn na fydd yn bosib cynnal oedfa nac unrhyw gyfarfod arall am rai wythnosau. Mae'r gwaith adfer a thacluso yn mynd yn ei flaen cyn gyflymed a phosib ac 'rydym yn ddiolchgar iawn i

bawb a ddaeth i godi'r holl garpedi a ddifethfwyd gan y dyfroedd a'r budreddi.

'Rydym ninnau ym Methlehem yn cydymdeimlo â phawb yn Nhalybont sydd wedi dioddef yn yr un modd ac yn cefnogi pob ymdrech i ddatrys y broblem llifogydd difrifol hyn yn yr ardal.

parhad ar y dudalen nesaf...

Cydymdeimlo
Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed am farwolaeth Mrs. Peggy Williams yn ddiweddar. ‘Roedd Peggy yn hogan o Dalybont, ac yn chwaer i Mrs. Rhiannon Williams, 15 Cae Gwigin. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf ati hi, ei brawd, Merfyn, a’r teulu oll yn eu profedigaeth.

Eglwys St Cross
Cynhaliwyd ein gwasanaeth Carolau undebol ar yr 20fed o Ragfyr, o dan arweiniad ein Ficer, y Parchedig John Matthews. Geraint Gill oedd yn cyfeilio, a chymerwyd rhan gan rai o'r aelodau. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd yr oedfa. Diolch i bawb am eu cefnogaeth, ac am addurno'r eglwys mor hardd.
Ar y Sul olaf o'r mis, cynhaliwyd gwasanaeth ar y cyd yng ngofal dau o'r Darllenwyr Lleyg, sef Martin Lewis, a Judith Page yn traddodi'r bregeth.

Dymuniadau gorau i Gracie Griffiths, Llwyn y Wern, sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Plas Ogwen ac wedi setlo yn dda erbyn hyn.
Adferiad iechyd buan i bawb sydd ddim yn dda, ac anfonwn ein cofion at y rhai sy'n dioddef o ganlyniad i'r llifogydd yn yr ardal.
Cynhaliwyd angladd Mrs. Bet Griffiths, o Gartref y Rhos, Malltraeth, (Dolhelyg gynt) yn yr eglwys ar yr 11eg o Ragfyr, o dan arweiniad y Parchedig John Mathews, gyda Mr. Martin Brown wrth yr organ. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent yr eglwys. Anfonwn ein cydymdeimlad at Eleri a Huw a’r teulu.

Llais Ogwan
NODYN ATGOFFA: RHIFYN NESAF Y LLAIS

Golygydd Ionawr
Lowri Roberts
Pob deunydd i law erbyn **Dydd Mercher, 3 Chwefror**, os gwelwch yn dda. Plygu **nos Iau, 18 Chwefror** yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Rhiwlas
Iona Jones
17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Merched y Wawr
Aeth nifer o’r aelodau am swper i ddathlu’r Nadolig i westy’r *Black Boy* yng Nghaernarfon a chafwyd noson ddifyr iawn yno, y bwyd yn flasus a digon o gloncian. Llongyfarchwyd Linda ar ei llwyddiant yn un o gystadlaethau crefft y Ffair Aeaf. Cawsom hwyl yn datrys posau Nadolig a osodwyd inni gan Nia ac ‘roedd rhai yn hynod o frwdfrydig ac yn benderfynol o gael yr ateb cywir, heb enwi neb! Diolchwyd i Annes am drefnu’r noson.
Clwb Rhiwen
Gwledda fu hanes Clwb Rhiwen hefyd, - cafwyd cinio Nadolig gwerth chweil yng Ngwesty Victoria Llanberis. ‘Roedd yn ddiwrnod stormus ond y gwesty’n groesawus a chynnes a phawb yn canmol y bwyd. Diolchwyd i Ann am wneud y trefniadau.
Cydymdeimlo
Daeth profedigaeth i ran sawl un dros gyfnod y Nadolig,ac ‘rydym yn cydymdeimlo â’r canlynol:
Mrs Linda Jones, Erw Wen - bu farw ei mam, sef Mrs Norah Williams, yn sydyn ond yn dawl yn Ysbyty Gwynedd yn 92 oed. ‘Roedd yn wreiddiol o Sir Gaer, ond â’i diweddar ŵr o Ddeiniolen, bu’n byw am

Tregarth
Olwen Hills (Anti Olwen)
44 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192
Angharad Williams
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth
☎ 601544

Ymunwch â ni
Mae canolfannau pentref yn chwarae rhan bwysig yn ein cymunedau gan eu bod yn cynnig man cyfarfod i bobl a gwahanol gymdeithasau, adnodd i gymdeithasu, diddanu, chwarae a diwyllio. Heb os nac onibai mae’r canolfannau hyn yn gwella safon bywyd ein hardalwyr. Tu ôl i bob canolfan lwyddiannus mae pwyllgor rheoli ymroddedig. Mae pwyllgor felly yn Nhregarth ond er mwyn gwarchod y ganolfan mae angen eich help chi. Helpwch ni i warchod Canolfan Gymdeithasol Tregarth er mwyn lles ein pobl a’n plant a’r

flynyddoedd yn Ninorwig, cyn symud i Gil y Coed ym Mangor. Treuliodd ychydig fisoedd ym Mhlas Hedd, lle bu’r gofal yn arbennig. Anfonwn ein cofion at Linda a Melfyn, Gwyn a Catrin a’u teuluoedd a hefyd at Anne, chwaer Linda, a’i theulu hithau.
Mr a Mrs Hefin Williams, Ffiolau’r Grug - bu farw ewythr Hefin, sef Mr Owen Jones, o Langefni ond yn wreiddiol o Ddeiniolen. ‘Roedd yn frawd i Mrs Eirlys Williams, mam Hefin ac anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu.
Mr Dennis Lloyd Wright - bu farw ei wraig, Christine, yn dawl yn eu cartref ym Maes y Gerddi, Maesgeirchen. Magwyd Dennis yn Rhiwlas a bu’n byw yma am beth amser wedi priodi. Mae ganddo ddiddordeb o hyd yn y pentref ac anfonwn ein cydymdeimlad ato ef a Nicola a’r teulu.
Mrs Valmai Jones a Mrs Eunice Jones - bu farw Shirley, eu cyfneither, yng Nghanada. ‘Roedd yn un o deulu Cae Mawr, yn ferch i’r diweddar Mr William Williams a oedd yn frawd i Mr Emyr Williams, tad Valmai ac Eunice.
Lolfa newydd yn Ysbyty Gwynedd
Yn ddiweddar agorwyd lolfa arbennig ar gyfer cleifion sy’n dioddef o dementia, wedi’i hariannu gan yr elusen Awyr Las. Mae’n ystafell dawl a chartrefol ac ar y waliau mae nifer o furluniau gan Joanne Warren sy’n dechnegydd yn y theatr. Mae Joanne yn byw yn

Bro Rhiwen a bu’n astudio celf am gyfnod.
Cneifio yn Nant Ffrancon
Yn Rhifyn Mis Tachwedd ‘roedd llun cneifwyr, a bu cryn drafod yn Rhifyn Rhagfyr, ond, o ddarllen y sylwadau, yr hyn a ddaeth i’m meddwl i yn syth oedd tebot. Ia, tebot a roddwyd i Neuadd Rhiwlas gan y ddiweddar Mrs Maggie Jones, Penrhyn Terrace . Fe’i magwyd yn y Nant, a bob tro y defnyddwyd y tebot, un eitha mawr , fe ddywedai mai hwn a ddefnyddiwyd yn ei chartref ar ddiwrnod cneifio. Yn ôl Elwyn, ei mab, mae’n debyg i’r tebot gael ei ddefnyddio ar fferm Pentre i ddechrau a Bodesi wedyn - ac erbyn hyn mae wrth ei waith yn y Neuadd!
Gwasanaeth Nadolig Cymunedol, Capel Jerusalem
Eleni eto braf oedd gweld pedwar o’r pentref yn canu yng Nghôr Ysgol Dyffryn Ogwen, sef Megan a Gwen Williams, Carreg y Gath, Erin George, Tyddyn Canol a Georgio Brown, Bron y Waun. Rwy’n sicr iddynt fwynhau y profiad.
Dymuniad
Blwyddyn Newydd Dda i bawb a dymuniadau gorau i’r rhai na fu’n teimlo’n dda ac a fu’n gaeth i’r tŷ yn 2015.
Eleni eto braf oedd gweld pedwar o Rhiwlas yng Nghôr Ysgol Dyffryn Ogwen, sef Megan a Gwen Williams, Carreg y Gath, Erin George, Ty’n Canol a Georgio Brown, Bron y Waun. Rwy’n sicr iddynt fwynhau y profiad

gwelir colli’r Ganolfan, a ninnau’n dibynnu cymaint arni. Gobeithio nad oes lawer o drigolion yr ardal wedi dioddef gormod oherwydd y tywydd garw.

Glasinfryn Caerhun
Marred Glyn Jones
2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor, LL57 4UP
☎ 01248 351067
marred567@btinternet.com

Aduniad arbennig
Mae wedi bod yn gyfnod cyffrous i Mrs Carole Singleton o Yr Efail, Caerhun, a’i theulu. Fe dderbyniodd Carole lythyr oddi wrth Fyddin yr Iachawdwriaeth ar ddechrau 2015 yn gofyn iddi hi gysylltu â nhw ‘ar fater teuluol’. Fe gysylltodd Carole â nhw a darganfod fod ganddi frawd yn

parhad Glasinfryn a Chaerhun

Awstralia oedd yn cofio gweld ei chwaer fach ddiwethaf 68 o flynyddoedd yn ôl! Ar ôl nifer o negeseuon e-bost a galwadau ffôn, daeth ei brawd, sef David, draw i Gymru yn ddiweddar gan aros gyda Carole a'i gŵr Bob yng Nghaerhun am bum wythnos. Ac wrth gwrs fe gafwyd aduniad teuluol, gyda David a Carole a'u brodyr a'u chwaer sef Ifor, Melfyn ac Everil yn dod at ei gilydd. Meddai Carole, "Mae pob un o'r brodyr a'r chwiorydd yn awr mewn cysylltiad yn rheolaidd drwy e-bost. Mae hyn yn

ffantastig ar ôl yr holl flynyddoedd!" Mae Melfyn bellach yn byw yng Nghaernarfon, Ifor yn Rugby, ac Everil yn Llanfairpwll.

Dathlu pen-blwydd
Llongyfarchiadau mawr i Mrs Eirlys Edwards, 51 Bro Infryn, Glasinfryn, fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ar Ionawr y 10fed.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Anna Pritchard a Dewi Griffith, Bryn Gwredog Isaf, Waen Wen, ar eu dyweddïad Ddydd Nadolig. Pob dymuniad da i'r ddau.



Yn y llun, o'r chwith i'r dde, gwelir Melfyn, David, Ifor, Carol ac Everil.

Croesair

Rhagfyr 2015

Ar draws

- 1 Gan ei fod yn wydr yn y canol, gwna sŵn mawr wrth chwalu (7)
- 5 Sefydliad gwleidyddol (5)
- 8 Hen fis, y cyntaf efallai (5)
- 9 Maent ar ei ôl ac yntau heb le i droi yn ddryslyd i gyd (7)
- 10 Yn ferch neu'n llanc heb fodrwy (7)
- 11 Gwlybaniaeth eithafol (5)
- 12 I wneud dillad, neu rywsut ganol dydd (6)
- 14 Dinas enwocaf Dyfnaint (6)
- 17 Tŷ od i fod yn feddw ynddo? (5)
- 19 Yn ddjarhebol, ddaw hwn ddim atoch ar ben ei hun (7)
- 22 Tolstoy a Chekhov (7)
- 23 Heb laesu dwylo (5)
- 24 Ffotograffydd cyfoes o Geredigion (5)
- 25 Mewn gair, enw i bysgota (7)

I lawr

- 1 Caredig ar lafar gwlad (5)
- 2 "Hen _ _ _ _ _", clasur D. J. Williams (7)
- 3 Gwrid yr anifail yn ddrwg, bwyta gormod o bysgod efallai (5)
- 4 Mae'n slic ar y môr (4,2)
- 5 Darganfyddiad meddygol pwysig yr Almaenwr Roentgen (6,1)
- 6 Y dalar sy'n fro ar wasgar (5)
- 7 Mynychwyr 17 Ar Draws (7)
- 12 Euog ynteu dieuog, arhoswn am hwn (7)
- 13 Saeth yw y bicell fach ar chwâl, gwaetha'r modd (7)
- 15 Defnyddio 12 Ar Draws (7)
- 16 Hedfan yn farddonol efallai (6)
- 18 'Canol _ _ _ _ _', disgrifio'r cyfnod o'r 5ed i'r 15fed ganrif (5)
- 20 d. neu r. neu m. (5)
- 21 Dylan y bardd, Owen y comediwr neu Pandy y


pentref (5)

Atebion RHAGFYR 2015

AR DRAWS 1 Canfod, 5 Mabi, 8 Eryr, 9 Gogoneddu, 10 Marian, 11 Uwchradd, 12 Paned Foreol, 15 Icarws, 17 Cadwyn, 19 Esgeulus, 20 Lisa, 21 Eofn, 22 Amrant

I LAWYR 2 Aorta, 3 Fersiwn, 4 Digon, 5 Mynych, 6 Boddhaol, 7 Egluro, 12 Picasso, 13 Di-sylw, 14 Eidalwr, 16 Raean, 17 Cosfa, 18 Ymson

Y canlynol lwyddodd i ddatrys croesair Rhagfyr yn hollol gywir : Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Sara a Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Tregarth; Gaynor Elis-Williams, Gwen Evans, Rita Bullock, Ann Carran, Bethesda; Eirlys Lewis, Penicuik; Doris Shaw, Bangor; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Ellen Whitehouse, Birmingham; Gareth William Jones, Bow Street; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dilys Parry, Derek a Mai Jones, Rhiwlas; Elfed Evans, Karen a Tom Williams, Llanllechid. Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch, a diolch i chi am gystadlu mor gyson. Yn anffodus mae rhai ymgeision yn cyrraedd yn hwyr bob mis. O hyn allan ni fedrir eu cynnwys, gan fod trefn newydd i gysodi ac argraffu'r



Atebion erbyn 5 Chwefror, 2016 i 'Croesair Rhagfyr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

Enw:

Cyfeiriad:

papur. Felly rhaid glynu wrth y dyddiad cau penodol bob mis. Yr un sy'n gyntaf allan o'r het am y wobr y tro yma yw ymgais **Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon LL55 3HE.** Llongyfarchiadau i chi.

Dyma groesair ola'r flwyddyn. Diolch o galon i'r rhai ohonoch a anfonodd gyfarchion Nadolig a gair o werthfawrogiad am y croesair. Atebion erbyn 5 Chwefror, 2106 i 'Croesair Rhagfyr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD.

NEUADD OGWEN
Noson Gomedi TUDUR OWEN, WELSH WHISPERER + HYWEL PITTS
Dydd Sadwrn 30 Ionawr am 7:30 pm
TUDUR OWEN, y digrifwr a chyflwynydd sioeau teledu adnabyddus o Fôn.
WELSH WHISPERER, y canwr pop a digrifwr a dalai deyrngedau i rhai o fawrion canu pop Cymraeg megis Tony ac Aloma, mewn modd cofiadwy!
HYWEL PITTS, y seren ddisglair ym myd adloniant a digrifwch a fydd yn ymuno â ni a'i ddeunyddiau newydd sbon danlli.
Tocynnau: £7.00 o Siop Ogwen, 33 Stryd Fawr, Bethesda, LL57 3AN. 01248 208 485

Beth sy'n mynd ymlaen yn y Dyffryn

DYDDIADUR BOREAU COFFI 2016

Ionawr 2016

16 Cefnfaes – Capel Jerusalem

Mawrth 2016

05 Cefnfaes - Plaid Cymru.

19 Cefnfaes - Cronfa Goffa Tracey Smith

Ebrill 2016

09 Cefnfaes – Plaid Lafur.

16 Cefnfaes – Capel Jerusalem.

23 Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.

30 Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir

Mai 2016

07 Cefnfaes – Neuadd Talgai.

14 Cefnfaes - Cymorth Cristnogol

21 Cefnfaes - Gorffwysfan

Medi 2016

24 Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracey Smith.

Hydref 2016

29 Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir

Tchawedd

19 Cefnfaes – Neuadd Talgai.

Pwysig

Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Canolfan Cefnfaes BETHESDA

• GYRFA CHWIST •

26 Ionawr

9 a 23 Chwefror, 2016

am 7.00 o'r gloch

• BORE COFFI •

Sadwrn, 16 Ionawr, 2016

10:00 – 12:00

Mynediad £1.00

Elw at Apêl Capel Jerusalem Tuag at 'Ffynnon Affrica'
Dewch i fwynhau gweithgareddau difyr

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Nos Lun 8 Chwefror 2016 am 7.00 o'r gloch

yn Festri Capel Jerusalem

BOB MORRIS: 'Teml Fawr Diwydrwydd' – Dau

Gymro a'r Palas Grisial

£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau.



Theatr Bara Caws yn cyflwyno

Drwg! gan Angela Roberts

Os 'da chi'n hoff o bypedau yna mae Drwg! gan Theatr Bara Caws, sioe sy'n seiliedig ar chwedl Rhita Gawr yn siŵr o apelio! Mae chwedl Rhita Gawr yn rhan o'n hetifeiddiaeth Gymreig, ac yn y cyflwyniad hwn mae Angela Roberts wedi ei haddasu fel ei bod yn berthnasol i blant heddiw. A phwy oedd Rhita medde chi? Wel, un drwg oedd Rhita, wrth ei fodd yn codi ofn ar bawb a phopeth, ac yn bwlio plant llai yn ddidrugaredd. Dewch i gael blas o'r sioe hudolus yma fydd yn teithio yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Addas i deuluoedd a Phlant oed cynradd

Actorion: Iwan Charles, Efa Dyfan a Sioned Wyn

Cyfarwyddo: Angela Roberts

Yn Neuadd Ogwen: Dydd Llun, 1 Chwefror am 13.00

Dydd Mawrth, 2 Chwefror am 10.00 a 13.00.

Tocynnau ar gael yn Siop Ogwen – 01248 208 485.

Llais Ogwan

Cofiwch Brynu Calendr Llais Ogwan



£4.00 yn y siopau lleol

neu ffoniwch Dafydd Fôn
Williams 01248 601583

Marchnad Ogwen

Chwefror 13eg

Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Mawrth 12fed

Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Ebrill 9fed

Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Ebrill 20fed

Neuadd Ogwen 5pm - 8pm

Bwydydd, Crefftiau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #MarchnadOgwen
Facebook

PLAID CYMRU Cangen Dyffryn Ogwen Cynhelir Cyfarfod Bynyddol

Dydd Gwener 19 Chwefror
am 7:00 o'r gloch
yng Nghanolfan Cefnfaes
CYFARFOD AGORED
am 7:30

Siaradwyr Gwadd:
Alun Ffred Jones AC
Cyng. Siân Gwnllian



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.

Cynghori, gosod a thorri wigiau

Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr

Ysglodion pren i'r ardd

Ffensio a thorri coed

Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda

Gwynedd LL57 3ST

Ffôn: 01248 602480

L. Sturrs

a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,

Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *

* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun – Gwener: 6.00 - 11.00

Sadwrn: 3.30 – 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00

01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewch groeso cynnes gan Gwyn a Christine

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel

1 Ffordd Garneddwen

Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau rhesymol

Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



Malinda Hayward

(Gwniadwraig)

Awel Deg

Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo

- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch

01248 601164

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus

(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer

partïon o bob math -

plant, pen-blwydd ac ati

(yn y caffï neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur

e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN

(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.

Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin

wneud eich golchi

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw'r

Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda	01248 600045	Cludiant am ddim yn lleol	Mynytho	01758 730768
Caernarfon	01286 676070	Stoc helaeth ac amrywiol	Llanrwst	01492 640794
Llangefni	01248 751677	Croeso i gyfrifon masnachol	Siop yn Llanrwst	01492 640794
		Staff cyfeillgar a phroffesiynol		
		Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y		

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

Dathlu Llwyddiannau'r Siarter Iaith

Ers 2011, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn datblygu cynlluniau arloesol i hyrwyddo annog defnydd plant o'r iaith Gymraeg yn eu bywyd bob dydd.

Fel rhan o waith 'Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd', mae'r Cyngor wedi datblygu pecyn o adnoddau ac wedi sefydlu trefn o gydnabod a gwobrwyo ymdrechion ysgolion wrth iddynt anelu am statws efydd, arian neu aur y siarter.

Mae holl ysgolion cynradd y Sir wedi bod yn rhan o gynllun y siarter i gynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Diolch i ymdrechion plant, staff, llywodraethwyr a rhieni'r ysgolion yma, mae pob ysgol bellach yn gweithio tuag at neu wedi cyrraedd statws a gofynion y wobwr arian neu'r aur. Yn ddiweddar, mae sawl seremoni wedi ei chynnal ar draws y sir i gydnabod ymdrechion disgyblion cynradd Gwynedd.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd:

"Nod syml y Siarter Iaith ydi annog a chefnogi plant Gwynedd i ddefnyddio eu Cymraeg – nid yn unig yn y dosbarth ond ym mhob agwedd o'u bywydau.

"Mae'n galonogol gweld fod y cynlluniau wedi bod yn llwyddiannus unwaith eto eleni, a braf gweld eu bod i gyd ar y ffordd i gyrraedd statws a gofyn y wobwr arian neu'r arian. Roedd y seremonïau yma yn gyfle arbennig i ddathlu llwyddiannau ein pobl ifanc a'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Llongyfarchiadau mawr i'r holl blant."

Ychwanegodd Gwenan Ellis Jones, Cydlynnydd Siarter Iaith

Ysgolion Gwynedd:

"Yn y cynllun mae pob ysgol yn gosod ei gweledigaeth ei hun – mae hyn yn allweddol bwysig oherwydd yr amrywiaeth ieithyddol o gymuned i gymuned.

"Mae pob ysgol wedi paratoi cynllun gweithredu, gan nodi gweledigaeth a'r camau ymarferol maen nhw'n eu cymryd i gyrraedd y nod. Erbyn hyn, mae data hynod gadarnhaol yn cefnogi'r ffaith bod yna gynydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg drwy'r sir.

"Mae llwyddiant y cynllun wedi dwyn sylw a chymeradwyaeth Llywodraeth â chynlluniau ar y gweill i ehangu gwaith Y Siarter ar draws siroedd y gogledd ac yna'n genedlaethol. Diolch diffuant i ysgolion Gwynedd am arwain y ffordd ac am eu gwaith gwych. Mae yna arferion da rif y gwllith yn ein hysgolion, yn cynnwys hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ystod amser egwyl, hyfforddiant a gweithgareddau i ennyn balchder yn yr iaith a'r diwylliant, a threfniadau ffurfiol i wobrwyo llwyddiant a chynnydd.

"Yn sail i'r cyfan, mae'r egwyddor syml fod llwyddiant yn dibynnu ar ymrwymiad staff, rhieni a llywodraethwyr yn ogystal wrth gwrs â'r plant eu hunain wrth iddynt gyrraedd at y nod o gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg."

Yn y lluniau, gwelir disgyblion ysgolion ardal Llais Ogwan yn derbyn tystysgrifau Siarter Iaith Gymraeg gan y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg, a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan, Cadeirydd Cyngor Gwynedd.



Ysgol Llandygái



Ysgol Llanllechid



Ysgol Penybryn



Ysgol Rhiwlas



Ysgol Tregarth

Ysgol Abercaseg

Ymweld ag Eglwys Glan Ogwen

Bu disgyblion dosbarth Ffrydlas yn ymroi’n frwdfrydig i weithgareddau Nadoligaidd, tra’n ymweld ag Eglwys Glan Ogwen cyn gwyliau’r Nadolig. Bu pawb yn ddiwyd yn creu cardiau a bisgedi Nadoligaidd yn ogystal ag ail greu stori’r Nadolig drwy weithgareddau chwarae rôl. Cyn ymadael, cafodd y plant gwrdd â Dyfrig - cymeriad a fu’n achos difyrrwch mawr i bawb. Diolch i aelodau’r eglwys am drefnu ymweliad cofiadwy, a oedd yn atgoffa pawb o wir ystyr y Nadolig.

Dyma lun Bethan gyda Dyfrig!:



Awduron y dyfodol!

Yn ddiweddar, bu amryw o ddisgyblion blwyddyn 2 yn cydweithio â’r awdures boblogaidd Angharad Tomos ar greu straeon gwreiddiol wedi eu lleoli ym mhentref Bethesda. Mae’r straeon bellach wedi’u cwblhau, a’r cam nesaf fydd eu hanimeiddio fel bod modd eu darllen ar ffurf apiau. ‘Rydym yn edrych ymlaen yn arw at hynny, ac yn gobeithio bod cydweithio ag awdur fel Angharad Tomos wedi cynnau’r awch yn y disgyblion i fynd ati i ysgrifennu mwy o straeon am anturiaethau’r cymeriadau dychmygol.

Pwy sy’n dwad dros y bryn?

Pwy ohonoch chi welodd gar llusg Siôn Corn wedi ei barcio y tu allan i Tesco Bach Bethesda? Wel, bu rhai o ddisgyblion dosbarth derbyn yr ysgol yn ddigon craff i’w weld, a bu iddynt berswadio eu hathrawon i fynd a nhw draw i’r siop rhag ofn bod y dyn ei hun yn dal yno. Ni chawsant eu siomi, gan bod Sion Corn yn brysur yn siopa am fwyd. ‘Roedd yn falch iawn o weld y plant, cymaint felly, nes iddo roi anrheg i bob un ohonynt.



Bu i’r plant hwythau ei atgoffa yntau o gynnwys eu rhestr Nadolig, jest rhag ofn ei fod wedi anghofio!! Diolch Sion Corn!

Siwmperi Nadoligaidd

Dynion Eira,Ceirw, Clychau’r Nadolig, Plu Eira – dyna enwi dim ond rhai o’r delweddau Nadoligaidd a oedd i’w gweld ym mhob twll a chornel o’r ysgol ddydd Gwener olaf y tymor diwethaf. Yn unol â threfn arferol yr ysgol, cafodd pawb a oedd yn dymuno, yn oedolion a disgyblion, wisgo eu siwmperi Nadolig er mwyn casglu arian tuag at gronfa Achub y Plant. Diolch i bawb a ymunodd yn yr hwyl.

Seren y Nadolig ar goll!

Ar Ragfyr 21ain, bu holl ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yn ein cyngerdd Nadolig. Eleni, aethpwyd ar daith i wahanol wledydd ar draws y byd i chwilio am Seren y Nadolig a oedd ar goll, cyn diweddu’r daith ym Methlehem ar noson geni Crist. Yn ôl y

gymeradwyaeth ar ddiwedd y perfformiad, ‘roedd pawb wedi mwynhau’r cyngerdd yn fawr. Diolch i’r staff am hyfforddi’r disgyblion, i’r rhieni am baratoi’r gwisgoedd ac i Bennaeth a Gofalwr Ysgol Dyffryn Ogwen am ganiatáu i ni lwyfannu’r cyngerdd yn yr ysgol. Diolch hefyd i ‘Gyfeillion Ysgol Abercaseg’ am baratoi a gweini’r mins peis a’r gwin poeth Nadoligaidd ar y noson.



Disgyblion Ysgol Abercaseg yn derbyn tystysgrifau Siarter Iaith Gymraeg gan y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg, a’r Cynghorydd Dilwyn Morgan, Cadeirydd Cyngor Gwynedd.

Ysgol Bodfeurig



Disgyblion Ysgol Bodfeurig yn derbyn tystysgrifau Siarter Iaith Gymraeg

Mae’r mis diwethaf wedi bod yn un prysur iawn i ni yma yn Ysgol Bodfeurig, yn llawn cyffro’r Nadolig ac yn llawn digwyddiadau diddorol.

Y Cyngor Ysgol

Mae ein Cyngor Ysgol wedi bod yn weithgar iawn yn ystod y tymor yn trefnu gweithgareddau i godi arian. Dewch i ddysgu mwy am eu gwaith caled.

Plant mewn Angen

Casglwyd £163 o bunnoedd pan wisgodd pawb fel eu harwyr a chynnal arwerthiant cacennau. Dyma lun o’r dosbarth Meithrin yn eu gwisgoedd:

Diwrnod Siwmperi Nadolig

Casglwyd £146 o bunnoedd tuag at elusennau Text Santa drwy wisgo siwmperi Nadolig a chynnal sinema gyda pítsa a da-da ar werth. Diolch i sawl archfarchnad leol am gyfrannu pítsas tuag at yr achos.

Cyngerdd Nadolig

Penderfynodd y Cyngor Ysgol gyfrannu £50 o elw’r cyngedd Nadolig at elusen y Groes Goch.

Diolch i’r Cyngor Ysgol am eu gwaith caled - edrychwn ymlaen at dymor llwyddiannus arall ar ôl y Nadolig.

parhad ar y dudalen nesaf...

Ymweliadau

Mae pob dosbarth wedi bod ar ymweliadau yn ystod mis Rhagfyr. Bu dosbarth Idwal yn ymweld â Sion Corn ar y trên bach yn Llanberis a bu dosbarthiadau Tryfan ac Ogwen yn Pontio yn gwylio panto.

Bu blwyddyn 2 hefyd yn ddigon ffodus i gael mynd i weld sioe Saer y Sêr yn Neuadd Ogwen ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau Nadoligaidd yng Nghapel y Ffynnon, Bangor. Cafodd pawb amser gwerth chweil!

Twitter

Cofiwch ein dilyn ni ar Twitter @YsgolBodfeurig am fwy o hanes yr ysgol.



Diwrnod Siwmperi Nadolig yn Ysgol Bodfeurig



Plant Ysgol Bodfeurig ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen wedi gwisgo fel eu harwyr.

SEFYDLIAD Y MERCHED CARNEDDI

Agorodd Rita Bullock, ein llywydd newydd am y flwyddyn 2016, ein cyfarfod cyntaf o'r sefydliad drwy estyn croeso cynnes iawn i bawb ar noson ddigon oer a gaeafol drwy ddymuno blwyddyn newydd dda i'r aelodau i gyd . Anfonwn ein cofion at ein cyn- lywydd, Mrs Margaret Williams a gafodd godwm cyn y Nadolig. Brysiwch wella Margaret! Yr un modd mae Nancy Thomas wedi cael llawdriniaeth ond erbyn hyn yn gwella hefyd. Mae ein meddyliau gyda Jean Hughes, ein trysorydd, ynghyd â thrigolion eraill yn Nhalybont a gafodd lifogydd i'w tai dros y Nadolig. Cawsom y fraint o ganu a dymuno penblwydd hapus yn 90oed i Myfanwy Jones, ar Ionawr 9fed. Gobeithio eich bod wedi cael diwrnod wrth eich bodd gyda'r teulu a ffrindiau! Ein gŵr gwadd oedd Aled Evans o Gaernarfon a fu'n sôn am ei waith gydag Age Cymru, Gwynedd a Môn. Mae help llaw o bob math i'w gael gan Age Cymru, o lenwi ffurfleni i gael pris am yswiriant tŷneu wyliau. Yr oedd ganddo bamffledi o bob math a fe gawsom becyn i fynd adre. Diolchwyd iddo ac i'r merched am y baned. Enillwyd y ddwy wobwr lwcus gan Myfanwy Jones a Glenys Jones.

Chwilair Ffermydd y Penrhyn

C	A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U
A	I	S	G	O	I	L	I	E	C	N	Y	D	D	Y	T	V	S	H	E
E	I	M	G	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X	V	A	D	D	N	A
M	P	A	T	U	Q	U	M	A	E	S	Y	P	E	N	E	W	L	S	O
A	F	R	Y	S	Y	C	H	N	A	N	T	G	P	Y	Q	Z	G	R	H
W	C	U	D	M	W	N	O	Y	R	I	E	A	S	Z	U	T	F	D	X
R	U	P	D	W	R	H	C	Q	H	R	W	E	H	O	Y	E	E	G	E
O	M	H	Y	E	P	N	T	T	L	C	B	B	C	U	O	U	J	P	L
T	M	I	N	V	V	A	D	A	C	B	B	F	R	R	F	O	G	J	V
I	I	R	I	R	X	W	N	D	I	M	H	T	M	T	O	S	N	K	O
P	W	R	S	C	M	G	E	K	C	B	O	Y	R	C	X	O	V	R	Y
H	D	S	A	T	M	O	R	E	F	Y	G	J	D	Z	F	H	B	C	W
O	D	S	F	C	C	R	R	A	I	N	X	N	I	A	L	X	J	J	M
B	Y	W	T	N	E	E	X	M	A	D	X	K	R	F	U	P	C	Q	Y
O	N	I	E	L	F	B	V	E	R	Z	Q	Y	R	O	C	T	D	G	W
S	O	P	L	R	Z	A	E	E	B	E	N	A	J	K	J	C	L	N	L
R	R	V	O	G	T	E	J	P	W	A	P	G	S	O	W	J	J	W	U
L	B	F	S	V	A	N	T	X	L	E	U	G	H	S	L	Z	E	A	F
X	I	W	T	C	Z	H	E	G	K	V	A	G	B	N	K	A	D	S	I
K	O	G	D	H	B	S	I	P	U	R	O	X	A	G	X	R	A	E	E

Yn y chwilair mis yma mae enw

FFERMYDD Y PENRHYN 1768

Yn y chwilair mis yma mae enw deuddeg FFERM a oedd mewn bodolaeth ar Stad y Penrhyn yn y flwyddyn 1768. Mae rhai ohonynt wedi diflannu erbyn heddiw, ond rhai eraill yn dal i fod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). **Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW, erbyn 3 Chwefror** . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r seibiant tros y Nadolig, a'ch bod chi i gyd yn edrych ymlaen at y flwyddyn newydd. Wrth agor yr atebion a ddaeth trwy'r post cefais fy mhlesio yn arw gyda sylwadau rhai ohonoch ynglŷn â'r chwilair a'r pleser mae yn ei roi i chwi. Mae'n rhaid dweud fy mod innau yn cael llawer o bleser yn ei baratoi o fis i fis wrth chwilio am destun i chwi. Diolch am y gefnogaeth trwy'r flwyddyn. Dyma atebion Rhagfyr:- Bro Salem; Bryn Hedydd; Bryn Owen; Cae Chwarel; Fron Chwith; Fron Deg; Lon Groes; Rhos Stanley; Stryd Walter; Stryd y Ffynnon; Tan Dderwen; Tan y Fron. Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:- Mair Jones, Ffordd Bangor; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Glenys Roberts, Henbarc; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Gwenda Roberts, Rhosmeirch, Ynys Môn; Wendy Eccles, Rachub; Myfanwy Jones, Gaerwen, Ynys Môn; Elizabeth Buckley, Tregarth; Doris Shaw, Bangor; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch. **Enillydd Rhagfyr** oedd:- Glenys Roberts, 1 Ffordd Henbarc, Llanllechid.

Ymgwymerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyr ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm



01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTIÖN AC ATÍ.



GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Amlwch (01407) 831777	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Modurdy Central

M.O.T. ar gael
Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎ 601031



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Sefydlwyd 1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
e-bost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Y BWTHYN Tŷ pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF
BWTHYN A AGELADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 150s. GANRIF
CEWICH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTALA
GOLYFEDD OGWYCH DROS
LLYN FADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am - 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIDDYDD GYDA SOON NEU DESEN (Dim prydau o gabwl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN - YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286) 872606 www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260
07761619475




www.owenswales.co.uk

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



SESIYNAU SIARAD I DDYSGWYR

11.00 - 12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 - 12.00, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's.

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad,
cysylltwch â Meleri ar **01248 602131**



Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn,
cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein

© 07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

Chwilio am ofod swyddfa/siop ar
Stryd Fawr Bethesda?
Gofod Siop, Swyddfa neu Weithdy
yn awr ar gael.

Ystafell gyfarfod Swyddfa Ogwen
Ar gael i'w llogi yn awr
telerau cymunedol ffafriol.

Ymholiadau - 01248 602131
partneriaeth@ogwen.org

I hysbysebu yn y Llais neu i dynnu
syllw at eich gweithgareddau yn yr
ardal, gan gynnwys
Dyddiadur y Dyffryn,
cysylltwch â'r
Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa,
yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym
Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa,
yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa
ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Chwaraeon

Rygbi - Adran 1 y Gogledd

Mae'r tywydd gwlyb y gaeaf yma wedi effeithio'n fawr ar y rhaglen chwarae gyda'r gemau yn erbyn Nant Conwy a'r Bala ar Ddôl Ddafydd yn cael eu gohirio oherwydd cyflwr y cae. Dim ond pedair gêm chwaraeodd Tîm Cyntaf Bethesda yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr.

Bu'n rhaid gohirio'r gêm Plât SWALEC i ffwrdd yn erbyn Llanisien ar Ragfyr 19eg am yr un rheswm.

Bu'r Ail Dîm yn ceisio'n ofer i chwarae gartref ac i ffwrdd ar sawl achlysur a gohiriwyd nifer o gemau'r Tîm Ieuencid hefyd.

Wedi dweud hynny, enillodd y Tîm Cyntaf ddwy o'r gemau a chwaraewyd ym mis Tachwedd - curo Abergele i ffwrdd o 13 pwynt i 8 a Rhuthun gartref o 21 pwynt i 12. Yn anffodus, collwyd i ffwrdd yn Yr Wyddgrug o 18 pwynt i 10 er rheoli'r meddiant am gyfnodau hir.

Yn yr unig gêm i'w chwarae ym mis Rhagfyr llwyddwyd i guro Llangefni i ffwrdd o 20 pwynt i 10.

Roedd cryn bryder am ganlyniad y gêm yma gan fod nifer o chwaraewyr dewis cyntaf heb fod ar gael i Fethesda ac 'roedd Llangefni wedi rhoi gêm galed i hogia' Pesda ar Ddôl Ddafydd ym mis Medi.

Roedd hi'n wyntog iawn ar Gae Smyrna ar ddechrau'r gêm a gwaethygu wnaeth y tywydd gyda glaw cyson yn troi'r cae trwm yn fwdlyd iawn erbyn y chwiban olaf.

Y tîm cartref, gyda'r gwynt cryf o'i gefn, aeth ar y blaen ar ôl pedwar munud drwy gôl gosb. Er hynny, Bethesda oedd yn rheoli'r meddiant gyda'r blaenwyr yn cadw'r bêl yn dynn am gyfnodau hir

Ar ôl 19 munud llwyddodd maswr Bethesda, Mathew Parry, i fylchu drwy amddiffyn Llangefni ac o'r ryc a ddilynodd, ysgubwyd y bêl i'r dde a chroesodd yr asgellwr ifanc Alwyn Roberts am gais yn y gornel.

Rai munudau'n ddiweddarach derbyniodd prop Bethesda, Gareth Ogwen Williams, gerdyn melyn am drosedd dechnegol. Yn ystod y 10 munud yma ac yn dilyn cyfnod o bwysau, dyfarnwyd cais cosb i'r tîm cartref a chyda'r trosiad yn un hawdd, 'roedd y sgôr yn 10 pwynt i 5 erbyn hanner amser.

Gyda mantais y gwynt, Bethesda wnaeth lwyr reoli'r meddiant a'r diriogaeth yn yr ail hanner. Yr wythwr, Rhys Williams sgoriodd ail gais Bethesda ar ôl 10 munud i wneud y sgôr yn gyfartal.

Yn dilyn nifer o ymosodiadau ar linell gais Llangefni sgoriodd yr asgellwr Daniel Pritchard gais yn y gornel, ond



aflwyddiannus fu ei ymgais i drosi. Gyda'r bwch rhwng y timau yn ddim ond 5 pwynt ymdrechodd Bethesda'n galed i ymestyn y fantais. Er i'r ymwelwyr groesi'r llinell gais ar fwy nag un achlysur, dim ond ymdrech hwyr y

blaenagellwr Arwyn Griffith a ganiatawyd gan y dyfarnwr. Buddugoliaeth a phwynt bonws haeddiannol i Fethesda felly ac roedd y bwch rhwng y ddau dîm yn fwy nag mae'r sgôr yn ei awgrymu.

Wu Shu Kwan

Myfyrwyr Gorau 2015 - Llongyfarchiadau i Leah Roberts o Rachub a Morgan Griffith o Dregarth – y ddau wedi gweithio'n galed iawn, ac yn haeddu'r tlysau!



Os yw colli pwysau a gwneud mwy o ymarfer corff ymhlith eich Addunedau Blwyddyn Newydd, beth am roi cynnig arni? Y wers gyntaf am ddim! DIM FFIOEDD MISOL! Sesiynau hyfforddi bob nos Fercher

a nos Sul, 6.30 - 8.30, yng Nghanolfan Gymunedol Tregarth. Croeso cynnes i bawb. (Plant yng nghwmni oedolion.) Galwch i mewn neu ffoniwch 01248 601416.